# Y DINESYDD

Chwefror 2023 Papur Pobl Caerdydd a'r Fro Rhif 475 £1.20


**Yr Ŵyl Cerdd Dant yn dychwelyd i Gaerdydd am y tro cynta ers dros ddeugain mlynedd, tud. 24**

**'Chwip o noson' i Glwb Canna: Catrin Herbert yn diddanu, tud. 9**




**Pa hud sydd ar waith gan Tweli Griffiths? Stori tud. 17**



**Dros 400 yn mynychu Eisteddfod Gadeiriol Caerdydd 2023. Adroddiad a detholiad o gyfansoddiadau buddugol tud. 4/5**

# Y DINESYDD

**Golygydd:**
**Alun Treharne**

***Golygydd Mawrth***
***Sian Parry-Jones***

Cyfraniadau erbyn **24 Chwefror** at:
sepj62@gmail.com
07985 043633

Y Digwyddiadur:
Yr Athro E Wyn James
JamesEW@caerdydd.ac.uk
16 Kelston Road, Caerdydd, CF14 2AJ
029 20628754

Hysbysebion:
Iestyn Davies
iestynd@gmail.com
15 Birchfield Crescent, Parc Victoria,
Caerdydd, CF5 1AE
07876 068498

Tanysgrifiadau:
Gwilym Dafydd (dros dro)
eirianagwilym@gmail.com
4 Coryton Rise, Yr Eglwys Newydd,
Caerdydd, CF14 7EJ
029 20657108

Prif Ddosbarthwr:
Arthur Evans
Yr Eglwys Newydd.
aloevans@icloud.com
029 20623628

**www.dinesydd.cymru**
Cyhoeddir gan Bwyllgor y Dinesydd.
Nodir hawl y golygyddion i gwtogi
ar erthyglau yn ôl y gofyn.

Argraffwyr:
Serol Print, Castell-nedd
Cysodydd: Dr Eirian Dafydd

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

Y Cyfryngau Cymdeithasol
Twitter: @DinesyddCdydd
Facebook:
www.facebook.com/YDinesydd


## *Y Dinesydd* yn dathlu'r 50 – edrych yn ôl ac ymlaen

Pan ddaw mis Ebrill, bydd *Y Dinesydd* yn hanner cant oed. Y bwriad yw cyhoeddi rhifyn arbennig a fydd yn edrych yn ôl ar hyd hanner canrif ond hefyd yn edrych ymlaen i'r blynyddoedd sydd gobeithio eto i ddod yn hanes papur bro hynaf Cymru.

Mae Norman Williams, Waunfawr, Caernarfon, y golygydd cyntaf nôl yn 1973, eisoes wedi llunio tudalen ddiddorol iawn o'i atgofion o'r dyddiau arloesol cynnar. Diolch rhag blaen iddo am wneud a chewch ddarllen y cyfan yn rhifyn mis Ebrill! Mae gwahoddiad cyffredinol i bawb ohonoch anfon gair os oes gennych atgofion, storïau, lluniau ac ati. Mae'n siŵr y bydd modd eu cyhoeddi mewn sawl rhifyn yn ystod 2023.

### Cylchrediad *Y Dinesydd*

Mae ambell un yn holi weithiau faint o bobl sy'n darllen *Y Dinesydd*? Pan ymunais â'r pwyllgor ryw ddegawd yn ôl mae gen i gof bod tua 700-750 copi yn cael eu hargraffu yn fisol. Mae gen i daflen o waith Ceri Morgan yn dangos sut roedd 665 copi yn cael eu dosbarthu o rifyn mis Hydref 2017. Erbyn hyn mae'r manylion yn ddiddorol iawn, afraid dweud. Erbyn dechrau 2023 baswn i'n dweud bod y cylchrediad bellach yn llai na 500. Y llynedd argraffwyd 390-410 copi misol ac roedd tua 100 o danysgrifwyr yn derbyn copi pdf trwy ebost. Mae tua 90-100 copi ar werth yn y siopau. Mae hi'n siom ond yn sicr ddim yn syndod bod cylchrediad *Y Dinesydd* wedi lleihau yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

### Tanysgrifio

I hwyluso trefniadau gweinyddol mae hi'n bwysig ac o gymorth os bydd ein holl danysgrifwyr yn llenwi ffurflen danysgrifio pan ddosberthir un gyda rhifyn Chwefror neu fis Mawrth eleni. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i bobl sy'n talu trwy'r banc neu yn derbyn copi trwy'r post.

Mae o hyd nifer o unigolion sydd yn talu £8 yn flynyddol trwy'r banc – cofier bod y tanysgrifiad yn £10 ers 2014 a £12 ers mis Ebrill 2021! Hefyd ceir tua 20 o unigolion sy'n talu trwy'r banc ond nid ydym yn gwybod pwy yw pwy oherwydd diffyg manylion parthed enwau neu god post ar ein datganiadau banc misol! Bydd rhai unigolion yn talu mwy na'r disgwyl ac mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar i chi am eich caredigrwydd. Ond noder y dylai pawb fod yn talu lleiafswm o £10 os yn derbyn copïau pdf trwy ebost; £12 am gopïau caled trwy sefydliad megis capel, eglwys neu siop ac ati; a £18 os yn derbyn copi caled trwy eich blwch llythyrau post – boed yn lleol i Gaerdydd a'r Fro neu llawer yn bellach i ffwrdd fel yn achos rhai ohonoch.

Diolch i chi am eich cefnogaeth a'ch cydweithrediad parthed yr her fisol a blynyddol o ddosbarthu copïau caled a pdf digidol o'r *Dinesydd*.

### Tanysgrifiadau 2023

Mae'n bwysig eich bod chi sy'n parhau i danysgrifio yn darllen y paragraff canlynol yn ofalus os gwelwch yn dda – diolch!

Wele air bach i'ch atgoffa o'r cefndir. Yn y blynyddoedd cynnar, yn wir tan rifyn mis Ebrill 2010, rhif 346, roedd *Y Dinesydd* yn dibynnu ar roddion ac arian hysbysebu ac ati i dalu'r costau. Bydd rhai yn cofio talu 80 ceiniog am gopi neu dalu tanysgrifiad blynyddol gwerth £8. Codwyd y pris i £1 y copi pan gyhoeddwyd rhifyn 386, fis Ebrill 2014, ac ers rhifyn Ebrill 2021, fel y gwyddoch, bu pris copi caled misol yn £1.20.

Gwnaeth Arthur Evans, ein prif ddosbarthwr, â chymorth eraill, ymdrech fawr y llynedd i sicrhau bod y manylion gweinyddol yn gyfredol ac yn gywir a bod pawb yn derbyn copi caled neu pdf trwy ddewis personol.

Diolch yn fawr am bob cefnogaeth a chydweithrediad. Mae'n debygol iawn y byddaf yn ôl yn rhifyn mis Mawrth gyda mwy o fanylion am rifyn dathlu'r *Dinesydd* yn 50 oed pan ddaw mis Ebrill.

*Gwilym Dafydd*
*(Cydlynydd **Y Dinesydd Dathlu'r 50**)*

# Colofn G.R.

*"Diolch byth bod nifer o gyflwynwyr Radio Cymru ac S4C yn dal i siarad Cymraeg naturiol ond safonol yn hytrach na bratiaith!"*



Eisoes mae eleni yn galapo a dyma hi'n fis Chwefror yn barod, sef mis byrraf y flwyddyn a buan iawn y byddwn yn dathlu Gŵyl Ddewi! Rhaid gobeithio am flwyddyn lai cythryblus eleni ond ar hyn o bryd, beth bynnag, dydy hynny ddim yn edrych yn debygol gwaetha'r modd rhwng y costau byw uwch, achosion lu o'r ffliw a Cofid, cyflwr gwael y gwasanaeth iechyd, streiciau a'r rhyfel erchyll yn Wcráin. Ond o leiaf gallwn edrych ymlaen at Eisteddfod yr Urdd, y Genedlaethol a Thafwyl, a hwyrach haf cynnes braf!

Cyn y Nadolig collwyd Elvey MacDonald o'n plith, a hynny yn sydyn yn ei gartre yn Llanrhystud ger Aberystwyth. Cafodd ei eni a'i fagu yn Nhrelew a'r Gaiman yn y Wladfa a daeth i fyw yng Nghymru nôl yn 1965. Bu'n gyd-drefnydd y Genedlaethol am gyfnod cyn dod yn Gyfarwyddwr Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd rhwng 1976 a 1997. Bu'n gyfrifol hefyd am sefydlu Radio Ceredigion yn 1992. Arhosodd yn was ffyddlon i achos Patagonia ar hyd y blynyddoedd. Bu'n aelod selog a gweithgar o Bwyllgor Cymdeithas Cymru-Ariannin a gwelir ei eisiau yn fawr.

Un arall a fu farw cyn y Nadolig, ac yntau yn 94 oed, oedd gŵr o'r enw Eiliw Pritchard oedd yn byw yn nhre Comodoro Rivadavia yn Nhalaith Chubut ym Mhatagonia. Bu yntau fel Elvey yn was ffyddlon i achos y Gymraeg a Phatagonia a bu o ac eraill yn gyfrifol am sefydlu Canolfan Gymraeg yn Comodoro gan fod nifer o Gymry'r Wladfa wedi dod yno i weithio yn y diwydiant olew. Trefnodd nifer o gyrsiau Cymraeg llwyddiannus yno dros y blynyddoedd ac un a fynychodd un o'r cyrsiau hyn odd Walter Ariel Brooks sy bellach yn byw yng Nghaerdydd ac yn gweithio ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae ei wraig, Geraldine Lubin, gynt o Buenos Aires, yn darlithio ym Mhrifysgol Abertawe. Mae'r ddau yn gwbl rugl eu Cymraeg a phleser ydy eu clywed yn siarad ar Radio Cymru o dro i dro. Yn sicr bu dathlu mawr ar eu haelwyd pan enillodd tîm pêl-droed yr Ariannin Gwpan Pêl-droed y Byd yn Qatar!

Flynyddoedd yn ôl sefydlwyd Mudiad Adfer ac un o'i bolisïau odd cymell siaradwyr Cymraeg yn ardaloedd Seisnig y wlad i ddychwelyd i fyw yn yr ardaloedd Cymraeg i gryfhau'r iaith yno gan adael y dwyrain Seisnig yn ddiamddiffyn. Doedd hyn ddim wrth fodd y diweddar Athro Jac L. Williams a mynnodd y dylid amddiffyn yr iaith hyd at ffiniau'r wlad yn hytrach na chilio i'r gorllewin. Ymhen blynyddoedd, wedi ymgyrchu brwd, sefydlwyd Ysgol Gymraeg y Ffin yn ardal Cil y Coed yn agos at y ffin. Rwan, ar ôl ymgyrchu eto, bydd Cyngor Sir Fynwy yn agor egin ysgol Gymraeg ym mis Medi yn Nhrefynwy sy hefyd ar y ffin. Felly ymlaen i gael egin ysgol Gymraeg arall ar y ffin yng Nghas-gwent i gryfhau ymhellach yr iaith yno!

Cyn y Nadolig cyhoeddwyd ystadegau nifer y siaradwyr Cymraeg yn ein gwlad yn dilyn y Cyfrifiad diweddaraf yn 2021, a gwelwyd cwymp o tua 25,000 yn nifer y siaradwyr. Mae hyn wedi achosi tipyn o fraw a siom. Ond er y cwymp o fewn ffiniau Cymru rhaid cofio bod miloedd lawer o siaradwyr yr iaith yn byw y tu allan i Gymru ond heb gael cyfle i gofrestru hynny. Mae Cymru wedi colli miloedd o siaradwyr y Gymraeg dros y canrifoedd mewn gwirionedd, yn bennaf oherwydd ffactorau economaidd. Mae angen gweld cynnydd yn yr economi i weld llai o siaradwyr yn gadael y wlad i chwilio am fyd gwell.

Yn ddiweddar clywais i gŵyn gan rai fod gormod o Saesneg yn dechrau ymdreiddio i nifer o raglenni ar S4C - ein Sianel Gymraeg a gostiodd mor ddrud i'w sefydlu. Des i'n ymwybodol o'r broblem Noswyl Nadolig wrth wylio'r rhaglen *Gwesty Aduniad* lle cafwyd talpiau o Saesneg gan fod nifer oedd yn ymddangos ar y rhaglen yn ddi-Gymraeg. I ddweud y gwir, er mor ddiddorol oedd y cynnwys byddai'n well pe bai'r rhaglen hon wedi ei dangos ar BBC1 hefo isdeitlau Saesneg ar gyfer y talpiau Cymraeg! Mae'n amlwg felly y dylid cadw llygad barcud ar y sefyllfa i sicrhau nad aiff ein Sianel Gymraeg yn Sianel Ddwyieithog!

Tra'n sôn am y Saesneg yn ymdreiddio i'n Sianel Gymraeg dwi'n dal ar fy mlwch sebon ynglŷn â dirywiad y Gymraeg a glywir yn rhy aml ar Radio Cymru ac S4C, hefo nifer o gyfranwyr yn siarad Cymraeg sâl, diffyg geirfa a geiriau Saesneg yn britho'r sgwrsio. Mae'r defnydd o *so* bondigrybwyll yn fy ngwylltio a'r defnydd o eiriau megis *amazing*, *lovely*, *really*, *anyway* ac ati yn dân ar fy nghroen; a beth am eiriau hyll megis 'ffocysu' yn lle 'canolbwyntio' a 'canslo' yn lle 'diddymu', 'delifro' yn lle 'cyflawni'! Diolch byth bod nifer o gyflwynwyr Radio Cymru ac S4C yn dal i siarad Cymraeg naturiol ond safonol yn hytrach na bratiaith!

Mae Gŵyl Ddewi ar y ffordd ac felly cofiwch anogaeth Dewi Sant i 'gyflawni'r pethau bychain' a'r geiriau hyn gan y bardd Eifion Wyn: 'Gwisg genhinen yn dy gap / A gwisg hi yn dy galon!' Tan y tro nesa, hwyl fawr!

# Eisteddfod Gadeiriol Caerdydd

Diolch i bawb a ddaeth draw i Ysgol Plasmawr ddydd Sadwrn 21 Ionawr i gefnogi Eisteddfod Gadeiriol Caerdydd. Fe wnaethom ni groesawu dros 400 o bobl drwy'r drysau drwy gydol y dydd, ac roedd yr awyrgylch yn yr ysgol yn hyfryd a chynnes, er gwaetha'r rhew a'r niwl y tu allan.

Dechreuodd y cystadlu gyda'r gystadleuaeth gerdd dant oed cynradd, a chloi sawl awr yn ddiweddarach gyda chystadleuaeth y corau. Byddem ni fel pwyllgor wedi hoffi gweld mwy o bobl yn cystadlu mewn mwy o gystadlaethau, ond wnaeth hynny ddim tarfu ar safon y cystadlu, a oedd yn gyson uchel drwy'r dydd, a'r beirniaid oll yn uchel eu clod.

Mae'n anodd (ac yn annheg) dewis uchafbwynt, ond rwy'n siŵr y bydd pawb oedd yno'n cytuno bod perfformiad Ysgol Melin Gruffydd yn y côr oed cynradd yn un a fydd yn aros yn y cof am sbel. Rhaid hefyd sôn am ddisgyblion Ysgol Pen y Dre, oedd wedi gofyn i ddod i gystadlu ar ôl mwynhau gymaint yn Eisteddfod y Cymoedd. Dyma pam fod eisteddfodau lleol yn bwysig.

Gobeithio y byddwch chi'n mwynhau'r detholiad o enillwyr gwaith cartref yn y rhifyn hwn o'r *Dinesydd*; mae recordiad o Non Lewis yn rapio ei hymgais fuddugol ar y Gadair ar gael ar wefan yr eisteddfod. Ewch i wrando arno, mae'n wirioneddol wych. Mae manylion yr holl enillwyr llwyfan ar ein tudalen Facebook (chwiliwch am Eisteddfod Caerdydd), a'r holl ganlyniadau ar ein gwefan:
www.eisteddfodcaerdydd.cymru.


*Llun: hawlfraint Irfon Bennett*


***Y beirniaid cerdd, Robart Arwyn a Iona Jones. Llun:hawlfraint Irfon Bennett.***

Diolch yn fawr iawn i'r holl feirniaid, cyfeilyddion, arweinyddion llwyfan, cymorth technegol a stiwardiaid a fu'n gymorth drwy'r dydd. Heb eich help chi ni fyddai eisteddfod.

Yn olaf, os cawsoch chi'ch ysbrydoli gan y cystadlu a'r brwdfrydedd, beth am ddod i'n helpu ni drefnu eisteddfod 2024? Mae croeso i unrhyw un ar ein pwyllgor. Anfonwch e-bost at cyswllt@eisteddfodcaerdydd.cymru, byddai'n braf clywed wrthych.

**Cerdd y Gadair**

***Perthyn***

Ein mamiaith sydd yn mwmian
A hen lais ei chalon lân,
Yn cydio ac yn codi,
Gyda'i gwerth yn nerth i ni.

Yn eu miri a'u mawredd
Mae ein hwyl a mae ein hedd,
Yn sŵn acen aileni,
Yn ei chrud fe glywn ei chri.

Â thes yn olau i'w thaith,
Yr ifanc ddaw â'r afiaith
A chariad at ei chewri
Yn ei hud a'i lledrith hi.

Yn byw yn fodlon ei byd
Â hen asbri ei hysbryd,
A'r refio yn arafu,
I fod mewn bywyd a fu.

Un tŷ o dan yr un to,
Ein gwlad sydd wedi'i gludo,
A'n gwaed yn llifo'n gadarn
Yn fur hyd ddiwedd y farn!

*Non Lewis, enillydd Cadair yr Eisteddfod, gyda Shan Crofft, a luniodd y Gadair, ac aelod o Bwyllgor yr Eisteddfod.*

*Yn wreiddiol o Glydach, mae Non bellach yn byw ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Mae'n aelod o Ysgol Farddol Caerfyrddin ac ymhlith ei diddordebau mae nofio yn y môr a chanu alto i Gôrdydd. Braf oedd clywed recordiad o Non yn adrodd y 'rap' i gyfeiliant drwm a syntheseiddydd yn ystod seremoni'r cadeirio. Yn ôl y beirniad, Ifor ap Glyn, roedd Non wedi deall y berthynas rhwng geiriau a bît.*

**Tlws yr Ifanc: Detholiad**

***Taliesin***
***Chez nous***

*24ain o Fawrth*
**Gwlad Belg 3-1 Cymru**
Arllwys wnaeth y glaw wrth i Iolo aros am y bỳs. Llifodd y glaw i lawr ei ruddiau a chyfuno â'r dagrau. Roedd ei emosiynau'n byrlymu o'r tu fewn, a'r llifddorau ar agor. Pob clwyf wedi'r geiriau atgas a luchiwyd arno yn pigo.

Cyrhaeddodd y bỳs. Camodd arni. Dangosodd ei bàs. Cerddodd i lawr y canol. Ambell un ddim yn symud eu llygaid o'r ffenest neu'r ffôn. Ambell un yn edrych arno â llygaid tosturiol. Ond tosturio ag o am be? Ai tosturio am yr olwg drist arno, neu dosturio am liw ei groen oedden nhw?

Daeth y sŵn cyfarwydd wrth i'r gyrrwr gau'r drws; sŵn fel pe bai'r bỳs yn anadlu allan ar ôl dal ei wynt am rhy hir, ac aeth ymlaen ar ei daith.

…..............
*5ed o Fedi*
**Belarws 2-3 Cymru**
Ar ddiwrnod cynta'r tymor newydd, eisteddai ar yr ymylon yn y sesiwn gyntaf â'i gyfoedion newydd yn y chweched dosbarth. Yn 'nabod neb, roedd o'n pitïo'i hun rywfaint am beidio â medru magu hyder i ymuno â sgwrs y bechgyn eraill. Drannoeth y gêm yn erbyn Belarws, roedd y grŵp yn trafod perfformiad Cymru. Goleuodd meddwl Iolo. Roedd o'n caru tîm pêl-droed Cymru. Yn teimlo cyn Gymreiged ag unrhyw un o'r gweddill; ac yn ymfalchïo yn amrywiaeth y sêr. Roedd bod yn groenddu'n naturiol yng Nghymru'r tîm pêl-droed.

…...............
Beth bynnag, mentrodd Iolo gynnig ryw sylw ar gymaint o foddhad oedd buddugoliaeth ar ôl bod ar ei hôl hi yn ei roi i rywun. Edrychodd pawb arno ag ychydig o syndod - gan gynnwys gweddill y dosbarth - â rhyw benbleth o 'Duwcs, ma'r boi'n siarad!' yn eu llygaid. Ar ôl ennyd o hynny, cytunon nhw. Roedd Iolo wedi cymryd y cam cyntaf. Wedi cael ymateb naturiol ganddynt; doedd rhai ohonyn nhw efallai heb siarad â neb croenddu o'r blaen. Roedden nhw mewn sefyllfa'r un mor anghyfarwydd ag o. Ond roedd o wedi cymryd y cam cyntaf. Y cam cyntaf i deimlo'n rhan o griw. Bod pobl yn ei groesawu i'w criw nhw, i'w gofod nhw.
Am y tro cyntaf, teimlodd Iolo nad oedd o'n estron yn ei wlad ei hun.

**Buddugol: *Gruffudd ab Owain***



*Criw o chweched dosbarth Ysgolion Plasmawr, Bro Edern a Glantaf fu'n darlledu drwy'r dydd ar orsaf radio Cymru FM.*
*Llun: hawlfraint Irfon Bennett.*





Ffotograffau buddugol Ceirios Bebb. Yn ogystal ag ennill y gystadleuaeth Ffotograffiaeth Uwchradd Ceirios a enillodd y gystadleuaeth Ffotograffiaeth Agored hefyd.

# Colofn Hannah



*"O'ch chi'n gwpod bod ENWAU'n gallu tyfu'n ifanc?"*

Mae gan T H Parry-Wiliams gerdd o'r enw 'Dau Hanner' sy'n dechre:

> Tybed fy mod i, O Fi fy Hun,
> Yn myned yn iau wrth fyned yn hŷn,
>
> A gwanwyn a gwenau a gwibiog hynt
> Yn gwahodd fel y gwahoddent gynt.
>
> Na ato Duw! Canys eir trwy'r byd
> O'r crud i'r bedd, nid o'r bedd i'r crud.
>
> Ac eto, gwych fyddai geni dyn
> Yn hen, a'i iengeiddio wrth fynd yn hŷn;
>
> A'i gladdu'n faban ar ben ei daith,
> Â llonder sych yn lle tristwch llaith.

Syniad diddorol a braf! Ond o'ch chi'n gwpod bod ENWAU'n gallu tyfu'n ifanc? Na? Na finne 'ed, tan yn ddiweddar. Cymerwch fy enw i nawr. Hannah Roberts o'dd enw Mangu, mam 'y Nhad. O'dd Dad yn un o dri-ar-ddeg o blant (a Mam yn un o Bedwar-ar ddeg!!) felly gallwch ddychmygu faint o gnithderwydd a chefnderwydd sy' 'da fi!

Beth bynnag, gas fy holl gyfnithderwydd o ochor Dad yr enw Hannah fel enw cynta', e.e. Hannah Mair, Hannah Jean, ond gelwid nhw wrth eu hail enw. Hannah Marian 'w inne, a dim ond fi gas y 'ngalw wrth fy enw cynta, Dad yn mynnu.

Reit, nawr 'te, yn blentyn, o'n i'n casáu'r enw, achos dim ond hen fobol o'dd ag e, Mam-gu sawl person, o'dd e'n ych a fi i fi. Hefyd, o'dd e'n odli 'da 'Banana'! Trwy fy mywyd, mewn Ysgol Gynradd, Uwchradd, Coleg, Byd Dysgu, Gwersyll yr Urdd, Actio, ac yn y bla'n, gwrddes i erio'd â Hannah arall, felly, pan o'dd rhywun yn galw'r enw, fi o'dd hi! Ym myd drama, glywes i am un actores o nghenhedl'eth i, sef Hannah Gordon.

OND, ryw ddeng mlynedd ar ucen yn ôl, o'n i yn Marks and Spencer, a chlywed rhywun yn galw 'Hannah'; dyma fi'n troi yn syth, dim ond i weld croten fach, a'i mam yn ei galw - ac o fanny mla'n ganwyd yr enw eto, ac fe ddysges i lawer ohony' nhw.

Wel, tua pythownos yn ôl, o'n i'n ishte m'wn tafarn, a dou ddyn ifanc ar y ford nesa. Dechre siarad, a gofyn enwe, a phan glywson nhw fy enw, y sylw o'dd, 'Gosh you've got a YOUNG name'!! O'n nhw tua deg-ar-ucen!! ... a Hannah'u cenhedl'eth nhw o'n nhw'n gyfarw'dd â hi!!

Wel, 'na fe T H, ma'n ENW i 'di iengeiddio ta beth!! Beth am y gweddill ohono'i? AI WISH!!

## YesCymru yn casglu cyfraniadau at Fanc Bwyd Caerdydd

Bore Sadwrn, 10 Rhagfyr, bu aelodau o'r gangen yn casglu bwyd tuag at Fanc Bwyd Caerdydd â chydweithrediad parod Tesco y tu allan i'w siop yn Nhreganna. Yn ystod y ddwy awr, drwy garedigrwydd y cyhoedd, casglwyd 408.8 kg o fwyd, gwerth 3 diwrnod o fwyd i 36 person lleol mewn argyfwng. [caerdydd@yes.cymru]



## Siopau lle gwerthir *Y Dinesydd*

**CABAN**, Pontcanna
**CAFFI BLOC**, Parc Fictoria
**CAFFI FFLOC**, Heol Ddwyreiniol y Bontfaen
**CANT A MIL**, 100 Whitchurch Rd.
**DERI STORES**, Rhiwbeina
**GRIFFIN BOOKS**, Penarth
**PAPERWEIGHT**, 22 Wellfield Road
**SIOP FACH CAERDYDD**, Arcêd y Castell
**Y FELIN**, Yr Eglwys Newydd
**VICTORIA FEARN GALLERY,** Rhiwbeina

# Ysgol Hamadryad

Mae disgyblion Ysgol Hamadryad wedi bod yn mwynhau dathlu hanesion a chwedlau Cymreig yn ystod mis Ionawr. Mae dosbarthiadau Collen a Bedwen wedi dysgu am stori Cantre'r Gwaelod, gan arbrofi yn y dŵr i weld pa wrthrychau oedd yn suddo a pha rai oedd yn arnofio. Dysgodd dosbarth Pinwydden am chwedl Blodeuwedd gan berfformio'r stori o'u cof yn null Pie Corbett. Bu'r disgyblion hefyd ar daith gerdded i arsylwi ar adar yn ein cynefin, ac er na welwyd tylluan nac eryr fel yn stori Blodeuwedd, dysgodd y plant lawer am fyd natur yn ein milltir sgwâr.

Hanes Tryweryn oedd ffocws dosbarth Llwyfen. Sbardunwyd y gwersi trwy ddarllen y nofel *Ta Ta Tryweryn* a gwrando ar gân 'Dŵr Dŵr Dŵr' gan Huw Jones. Ysbrydolwyd y dosbarth i fynd ar sawl trywydd, o gyfansoddi rap, i ysgrifennu dyddiadur ac i drafod lluniau o Gwm Celyn cyn ac ar ôl y boddi. Yn ffodus, mae Mrs John, un o'n hathrawon, yn wyres i brifathrawes olaf Ysgol Celyn ac rydym yn edrych ymlaen at ei chroesawu hi a'i thad i'r dosbarth i'w holi am eu profiadau.

Braf oedd gallu croesawu myfyrwyr rhyngwladol o Brifysgol Soka (California) i ymweld ag Ysgol Hamadryad i ddysgu gennym am addysgeg ddwyieithog ac amlieithog. Rydym yn ddiolchgar iddynt am rannu eu profiadau difyr hwy yn ogystal.

Roedd Diwrnod Santes Dwynwen yn gyfle i ddathlu cariad ac i ddysgu am Nawddsant Cariadon Cymru. Trefnwyd disgo arbennig i'r plant gan Ffrindiau Hamadryad a chawson nhw gyfle i rannu negeseuon o gariad gan eu rhieni, gyda'u ffrindiau.



***Tîm pêl-droed bechgyn yr ysgol***

Bu tim pêl-droed bechgyn yr ysgol yn cynrychioli Hamadryad yng Nghystadleuaeth Ysgolion Caerdydd a'r Fro, profiad gwych! Cyfle i'r merched fydd hi nesaf. Hyn oll, yn ogystal ag hyfforddi ar gyfer Eisteddfod yr Urdd, gweithgareddau'r côr a chlybiau amrywiol. Dechrau gwych i'r tymor newydd!

# Ysgol Y Berllan Deg

**Cyngherddau Nadolig**

Braf oedd cael gweld plant yr ysgol yn cymryd rhan mewn cyngherddau Nadolig unwaith eto ar naw achlysur – côr Blwyddyn 5 a 6 yn Eglwys Sant Ioan yng nghanol Caerdydd; côr Blwyddyn 3 yn Eglwys Christchurch, Llanedeyrn; cyngerdd plant y Derbyn, sioe Nadolig Bl 1 a 2 (dwy sioe), cyngerdd plant Meithrin (dwy gyngerdd), gwasanaethau carolau Bl 3 a 4 a Bl 5 a 6 yn Eglwys Glenwood, Llanedeyrn. Casglwyd £800 i gyd yn y ddau wasanaeth carolau tuag at elusen Llamau a bu Blwyddyn 1 hefyd yn casglu teganau a nwyddau at yr elusen fel rhan o'u gwaith dosbarth; daeth cynrychiolydd o'r elusen i'r ysgol i gasglu'r nwyddau. Daeth cynrychiolydd i'r ysgol ar 18 Ionawr i gynnal gwasanaeth i'r plant i egluro sut mae Llamau yn helpu plant a phobl ifanc yma yng Nghaerdydd ac i ddiolch yn swyddogol am y rhodd ariannol.

**Ysbyty Arch Noa**

Casglwyd £192 tuag at Ysbyty Arch Noa ym mis Rhagfyr wrth i bawb ddod i'r ysgol yn gwisgo siwmper Nadolig neu wisg Nadoligaidd.

**Cogyddes yr ysgol yn ymddeol**

Pob lwc i Mrs Amanda Morgan, cogyddes yr ysgol ers i ni symud i'r adeilad hwn yn 2003, sydd newydd ymddeol ac a fydd yn symud i fyw i ynys Cyprus ddiwedd y mis. Diolch o galon iddi am ei chyfraniad i'r ysgol ar hyd y blynyddoedd.




***Cyfrannu at elusen Llamau***

# Colofn Natur

## *Y Dryw*



**Gethin Jenkins-Jones**

Wrth ddyfalu pa aderyn sy' â'r boblogaeth fwyaf yn y DU, dwi'n siŵr y bydd llawer yn meddwl yn syth am adar ein pentrefi a'n dinasoedd, fel aderyn y to, yr aderyn du, a cholomennod. Ond mewn gwirionedd un o'n hadar lleiaf o ran maint sydd yn fwyaf niferus – y dryw. Mae poblogaeth y dryw tua 11 miliwn yma – tua 4 miliwn yn fwy na'r ail aderyn mwyaf cyffredin – y robin goch. Ond er taw'r dryw yw aderyn mwyaf niferus y wlad, dwi'n tybio nad yw mor gyfarwydd â'n hadar cyffredin eraill. Y mis yma, felly, dwi am ganolbwyntio ar y dryw a chynnig rhesymau pam ei fod yn haeddu rhagor o'n sylw.



*Llun: Alec Stewart*

Un o'r rhesymau pam fod y dryw mor llwyddiannus yw ei allu i fyw mewn bron unrhyw gynefin – cyn belled â bod yno lwyni a choed i gynnig bwyd a lloches. Am aderyn mor fach mae'n andros o wydn. Gall oroesi ar ben mynyddoedd drwy'r gaeaf mewn amodau rhewllyd parhaol, tra bod adar eraill wedi hen ffoi i ardaloedd mwy mwyn y wlad. Wrth aros ar ambell ynys yn yr Alban am filoedd o flynyddoedd, mae isrywogaethau bellach wedi esblygu ar ynysoedd St Kilda, Fair Isle a Shetland, lle mae ganddynt fel rheol feintiau corff mwy i ddelio â'r hinsawdd galed. Un dacteg sydd gan yr adar hyn i gadw'n dwym yn y gaeaf yw treulio'r nosweithiau mewn grwpiau mewn blychod nythu. Gall sawl dwsin ohonynt rannu'r un blwch, a'r nifer mwyaf sydd wedi'i recordio yw 63!

Trwy gydol y flwyddyn, prif ddeiet y dryw yw pry, hyd yn oed yn ystod misoedd y gaeaf pan fydd llawer llai ohonynt o gwmpas. Er bod yr aderyn yma yn gyffredin mewn gerddi yn sawl rhanbarth o'r wlad, prin y bydd yn mynd at y bwyd (megis hadau a braster) a fydd yn denu llawer o adar eraill.

Pan ddaw'r gwanwyn, mae presenoldeb y dryw yn llawer mwy amlwg, gan fod ganddo gân hynod o swnllyd. 'Aderyn bach, cân fawr' oedd geiriau fy nhad wrth iddo fy nghyflwyno i adar pan oeddwn yn grwt. Yn wir, mae'n syndod bod aderyn mor fach yn gallu creu'r fath sŵn, ond mae hyn yn batrwm sydd i'w weld yn rhywogaethau'r dryw ar draws y byd, a dwi'n tybio bod rhai dwi wedi eu clywed yn yr Americas yn fwy swnllyd fyth!

Mae ymddygiad y dryw yn ystod y tymor nythu hefyd yn wahanol i'r mwyafrif o'n hadar. Mae'r gwrywod yn dueddol o baru â mwy nag un fenyw, ac maen nhw'n barod i helpu i fwydo sawl teulu o gywion. Ar ddechrau'r tymor nythu, mae'r gwryw hefyd yn adeiladu sawl nyth, fel arfer yng nghanol eiddew dwys, cyn cymryd ei bartner o un i'r llall nes cyrraedd un y bydd y fenyw yn hoff o ddodwy ynddo. Ar sawl achlysur dros y degawd diwethaf dwi wedi cyffroi wrth ddod o hyd i nyth dryw yn ystod y gwanwyn, ond i gael fy siomi i'w weld yn wag (h.y. y nythod na chafodd eu dewis!)

Er nad yw'r dryw o bosib mor gyfarwydd ag adar eraill, mae'n sicr wedi denu sylw dros y blynyddoedd. Rhwng 1937 ac 1960 roedd yr aderyn yma i'w weld ar wyneb darn ceiniog ym Mhrydain, ac mae hefyd yn ymddangos mewn straeon a chwedlau. Fy ffefryn oll yw hen chwedl am gystadleuaeth rhwng yr adar i weld pa un oedd yn medru hedfan uchaf. Wrth i'r gystadleuaeth orffen roedd hi'n ymddangos mai'r eryr fyddai'n ennill, ond wrth i'r eryr ddechrau blino ymddangosodd dryw - a oedd wedi treulio'r ras ynghudd ym mhlu'r eryr – a dechrau hedfan yn uwch i ennill y goron - drygionus iawn!

Fel pob aderyn, mae hanes ac ecoleg y dryw yn hynod o ddiddorol ac, i mi, yn ysbrydoliaeth o ran ymdopi â chaledi. Er ei fod yn fach o ran maint, mae yna wledd o resymau i fwynhau'r aderyn yma.

---

**Cadwch mewn cysylltiad â'r *Dinesydd***

**ar Twitter drwy ddilyn ein cyfrif @DinesyddCdydd**

**ac ar Facebook drwy ddilyn www.facebook.com/YDinesydd**

# Clwb Canna

Wel, am ddechrau i’r flwyddyn bois bach! Allen ni ddim bod wedi gofyn am ei well.

Nos Wener 20 Ionawr - rhynllyd, rhewllyd. Noson i swatio o flaen y tân os buodd ’na un erioed. Ond wedyn roedd y Clwb wedi trefnu gig gyda Dafydd Iwan, ac i ffwrdd â ni i Ysgol Plasmawr, gan edrych ymlaen at wylio a gwrando ar y dyn ei hun, sydd wedi bod yn cyfareddu ac yn cyffroi cynulleidfaoedd ers degawdau.





Cafwyd dechrau gwych i’r noson gyda Catrin Herbert, sy’n gyn-ddisgybl yn yr ysgol, yn hyfryd a swynol ac yn werth gwrando arni – un o’r artistiaid hynny y gallwch yn hawdd iawn eistedd nôl a gwrando arni am oriau.

Yna, ar ôl egwyl fer, camodd Mari Mathias i’r llwyfan gyda’i band, a dyna wledd wych gan gerddorion gwerin y tu hwnt o ddawnus ac y gwirionodd y gynulleidfa arnyn nhw. Artistiaid gwerth chweil, ond nad ydyn nhw’n cael hanner digon o sylw.

Cafwyd dwy set wedyn gan Dafydd Iwan, gydag Euros Rhys ar yr allweddellau. A wnaeth o ddim siomi. Roedd neuadd yr ysgol (anodd cofio weithiau mai dyna oedd y lleoliad!) yn ysgwyd i’w seiliau yn sŵn cerddoriaeth eiconig DI! Cafwyd cymysgedd o’r doniol a’r dwys, y distawrwydd parchus i’r anthemau tawel teimladwy, ochr yn ochr â’i ganeuon gwladgarol grymus. Roedd pawb ar eu traed erbyn y diwedd!

Chwip o noson yn wir, a diolch i’r holl artistiaid, ac i’r gynulleidfa am bob cefnogaeth i noson gyntaf Clwb Canna eleni. A diolch yn fawr i’r ffotograffydd swyddogol, @irfonbennett.com.

Cadwch eich llygaid a’ch clustiau ar agor am newyddion yr artistiaid cyffrous a fydd yn nigwyddiad nesaf Clwb Canna, **nos Wener 10 Mawrth**, yng Nghlwb Rhyddfrydwyr Treganna (*Canton Liberals*).

Lluniau: hawlfraint Irfon Bennett.
*Mari Mathias a’i band.*
*Dafydd Iwan ac Euros Rhys.*

# Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina

Ar nos Lun, 19 Rhagfyr, yng Nghapel Bethel, Rhiwbeina, croesawyd pawb i noson *Dathlu’r Nadolig* gan gydlynydd y noson, Gwilym Roberts. Cyflwynwyd eitemau amrywiol gan yr aelodau – y cyfan wedi eu dethol yn ofalus i fynd â ni yn ôl i naws dathliad Nadolig y gorffennol. Yn goron ar y noson roedd cyflwyniadau’r unawdydd Tristan Francis, y cyfeilydd Emyr Roberts, ac yn arbennig ei ferch, Catrin Roberts, ar y sacsoffon. Bu Catrin a’i chwiorydd yn ein diddanu fel Cymdeithas ers blynyddoedd, a braf oedd gweld Catrin yn dychwelyd o Goleg Guildhall, Llundain, yn arbennig ar gyfer y noson hon. Diolchwyd i bawb gan ein Cadeirydd, Shirley Williams, a wahoddodd bawb i gymdeithasu a chael paned ar ddiwedd y noson.





Ar nos Lun, 16 Ionawr, croesawodd Shirley Williams, ein Cadeirydd, Elin Jones, Llywydd y Senedd i gyfarfod cyntaf 2023. Daeth cynulleidfa dda ynghyd er gwaetha’r tywydd, ac fe gafwyd noson arbennig yn ei chwmni. Aeth Elin â ni yn ôl i’w dyddiau ysgol yn Llanbed, ymlaen i Aberystwyth a’i gwaith ar gyngor y dref, cyn dod yn faer ieuengaf y dref; y rhyfeddod oedd yn y dyddiau hynny bod gan Gyngor Tref Aberystwyth fwy o bwerau codi arian na’r Cynulliad. Aeth Elin â ni ar daith i’n hatgoffa am ddyddiau cynnar y Cynulliad a’r newid i ddyddiau y Senedd, gan nodi mor naturiol y mae’r enw wedi ei sefydlu erbyn hyn. Roedd hi’n amlwg bod hawliau merched yn bwysig i Elin ac ymfalchiai yn y ffaith fod gan ein Senedd ni gynrychiolaeth a chydbwysedd perffaith o ddynion a merched. Ymhyfrydai hefyd yn Senedd yr Ieuenctid, sefydliad oedd yn llawn gobaith am y dyfodol. Nododd mai ein Senedd ni oedd y gyntaf yn y byd i weithredu drwy gyfrwng technoleg yn ystod cyfnod Cofid. Diolchwyd i Elin ar ein rhan gan Lynn Davies a bu cyfle i fwynhau paned a sgwrs ar ddiwewdd y cyfarfod.

*Dilwyn Jones*

Lluniau: *Rhai o’r criw yn noson Dathlu’r Nadolig*
*Elin Jones a’r Cadeirydd, Shirley Williams*

# Gwylio'r Geiniog



## Huw Aled Accountants

Dyma rai materion ariannol i'w hystyried ar ddechrau'r Flwyddyn Newydd:

- Oes gennych chi ***ewyllys clir, cyfredol***? Gall Huw eich helpu gyda drafftio cynnwys yr ewyllys a gwirio eich sefyllfa treth etifeddiaeth. Yna, bydd cyfreithiwr dwyieithog lleol yn cwblhau'r broses o ddrafftio eich ewyllys.

- Os oes angen i chi drefnu ***Atwrneiaeth (Power of Attorney***) ar eich cyfer chi, neu i aelod arall o'r teulu, cysylltwch â Huw.

- A yw eich cynilion yn eistedd mewn cyfrif llog isel? Gan fod cyfraddau llog wedi codi sawl gwaith yn ystod 2022, gyda rhai'n awgrymu y bydd cyfraddau llog yn cyrraedd uchafbwynt erbyn canol 2023, efallai y byddai'n fuddiol manteisio ar y ***cyfraddau llog uwch ar gyfrifon cynilo***. Gall gwefannau cymharu ddangos y dewisiadau sydd ar gael.

- Ydych chi dros 45? ***Gwiriwch eich rhagolwg ar gyfer Pensiwn y Wladwriaeth*** ar wefan Gov.uk. Yn gyffredinol, mae angen o leiaf 35 o flynyddoedd llawn o daliadau Yswiriant Gwladol (YG) er mwyn i unigolion fod yn gymwys i dderbyn Pensiwn y Wladwriaeth llawn.

  Os oes bylchau yn eich cofnod YG yn mynd yn ôl i 2006, gallwch ychwanegu taliadau YG at y blynyddoedd hyn, ond y ***dyddiad cau ar gyfer hyn yw mis Ebrill eleni***. O fis Ebrill 2023, dim ond chwe blynedd y gallwch chi fynd yn ôl i ychwanegu at unrhyw daliadau ar eich cofnod YG.

- Oes gennych chi asedau rydych yn ystyried eu gwerthu? Bydd y ***lwfans di-dreth ar gyfer treth ar eiddo*** (*capital gains tax*) o £12,300 yn cael ei ostwng i £6,000 ym mis Ebrill 2023 (a'i haneru eto i £3,000 o fis Ebrill 2024). Bydd hyn yn arwain at dreth ar eiddo uwch o dros £1,000 y flwyddyn i unrhyw un sy'n gwerthu asedau o fis Ebrill 2023.

  Os ydych yn ystyried gwerthu asedau megis tai neu fuddsoddiadau, efallai yr hoffech wneud hynny cyn Ebrill 2023. Os oes angen cymorth arnoch gyda chyfrifiadau treth ar eiddo, cysylltwch â ni.

- A ydych yn gyfranddaliwr/cyfarwyddwr cwmni cyfyngedig neu oes gennych bortffolio buddsoddi o gyfranddaliadau? Bydd y lwfans di-dreth ar gyfer difidendau yn cael ei ostwng o £2,000 i £1,000 ym mis Ebrill 2023 a'i haneru eto i £500 o fis Ebrill 2024. Mae hyn yn debygol o arwain at fwy o unigolion yn cael eu dal gan ofynion i gwblhau ffurflen dreth yn y dyfodol o fis Ebrill yma ymlaen.

*Am fwy o fanylion cysylltwch â ni trwy:*
*huwaledaccountants.com neu 029 20694524*

# Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd

Ar nos Lun 16 Ionawr 2023 cawsom ddarlith ddiddorol dros ben gan William Lamb sy'n fyfyriwr doethuriaeth ym Mhrifysgol Vanderbilt yn Nashville yn yr Unol Daleithiau. Mae William yn wreiddiol o Benisarwaun ac aeth i ysgolion Penisarwaun a Brynrefail cyn gwneud gradd mewn Ffiseg a Mathemateg ym Mhrifysgol Efrog. Roedd William yn ymweld â grŵp tonnau disgyrchol yn Adran Ffiseg Prifysgol Caerdydd ac fe gytunodd i ddod i siarad â ni yn adeilad newydd sbon Prifysgol Caerdydd sef Canolfan Bywyd Myfyrwyr lle darparwyd ystafell gyfarfod hybrid gyda chynulleidfa fyw a chynulleidfa ar *Zoom*.

Eglurodd William y cefndir i'w waith ar donnau disgyrchiant, syniad a broffwydwyd gan ddamcaniaeth perthnasedd gyffredinol Albert Einstein yn 1916 ond ni ddaeth canfyddiad uniongyrchol tan 2015 gydag arbrawf o'r enw LIGO sef *Laser Interferometer Gravitational-Wave Observatory*. Llwyddodd yr arbrawf hwn i ganfod dau dwll du anferth yn taro mewn i'w gilydd yn bell, bell i ffwrdd trwy ddefnyddio ymyrraeth rhwng pelydrau goleuni laser i fesur newidiadau bychain iawn mewn hyd twneli wrth i donnau disgyrchiant o'r digwyddiad basio trwy'r Ddaear. Roedd rhaid mesur newidiadau ar raddfa milfed ran o faint niwclews atom – llwyddiant technolegol anhygoel a arweiniodd at wobr Nobel.

Mae William yn rhan o brosiect o'r enw NANOGrav (*North American NanoHertz Observatory for Gravitational Waves*) sydd yn chwilio am donnau disgyrchiant gwannach na'r rhai a welodd arbrawf LIGO. Gwneir hyn trwy wneud mesuriadau manwl o bylsêrau - sêr ar ddiwedd eu bywydau sy'n cynhyrchu pylsiau radio rheolaidd dros ben. Trwy edrych ar y pylsêrau mewn gwahanol gyfeiriadau gellir ceisio mesur newidiadau yn amseriad y pylsiau o ganlyniad i donnau disgyrchiant yn pasio trwyddynt ac mae William yn ysgrifennu meddalwedd i wneud y broses hon yn haws ac yn gynt. Mae gwyddonwyr dros y byd yn defnyddio'r meddalwedd yma ac heb wybod eu bod yn defnyddio geiriau Cymraeg wedi eu gosod gan William fel rhan hanfodol o'r meddalwedd!

*Rhys Morris*

## Aled Glynne Davies: Teyrnged



***Llun: Cymru Fyw***

*Mae llu o deyrngedau wedi eu rhoi i Aled Glynne Davies, cyn-olygydd Radio Cymru, a fu farw yn ddiweddar – yn eu plith teyrnged dwymgalon gan ei gyfaill, Vaughan Roderick. Diolchir i Vaughan ac i Gymru Fyw am ganiatâd i'w chynnwys isod.*

**'Golygydd mwyaf beiddgar Radio Cymru'**

Dydw i ddim yn cofio rhyw lawer am fy nyddiau cyntaf yn yr ysgol fach, ond rwyf yn cofio bachgen bochgoch â gwên barod yn dod ataf ar iard Bryntaf ac yn cynnig bod yn ffrindiau. Ei enw oedd Aled Glynne Davies, a nes i'w deulu symud i'r gogledd fe oedd fy ffrind gorau.

Ar ôl hynny, fel sy'n digwydd yn y Gymru Gymraeg, roedd bywydau Aled a minnau yn cyffwrdd â'i gilydd yn weddol rheolaidd ar hyd y blynyddoedd a'r degawdau. Roedd Aled yn gwahodd gwrandawyr i 'Fynd am sbin 'da Aled Glynne' tra roeddwn innau am i wrandawyr y brifddinas 'Cadw Cwmni' i mi ar Ddarlledu Caerdydd.

Yn ddiweddarach bu'r ddau ohonom yn gweithio gyda'n gilydd ar wasanaeth newyddion y BBC gan fwynhau'r gwatwar a'r tynnu coes, yn enwedig pan oedd Aled yn ffonio ei 'fabi del', Afryl. Yn fwy diweddar byth roeddwn yn ei weld bob bore Sul wrth iddo yntau ac Afryl geisio saernïo rhaglen ar Radio Cymru fyddai'n dwgyd fy ngwrandawyr o Radio Wales. Roedd y gystadleuaeth yn ffyrnig ond bob tro yn gyfeillgar!

**Trawsnewid cawlach o raglenni hen ffasiwn**

Mae'r newyddion ein bod wedi ei golli yn dorcalonnus - i'w deulu yn fwy na neb ond i lu o gyfeillion a chydweithwyr oedd wedi mwynhau mynd am sbin ar hyd y blynyddoedd.

Pe bawn i'n gorfod dewis un ansoddair i ddisgrifio Aled, 'caredig' fyddai hwnnw – ond y tu ôl i'r wên roedd ganddo asgwrn cefn o ddur. Ef, heb os, oedd golygydd mwyaf beiddgar Radio Cymru gan drawsnewid cawlach o raglenni hen ffasiwn yn orsaf fodern, lyfn, tebyg iawn i'r hyn yw hi heddiw. Roedd angen dewrder i wneud hynny yn wyneb adwaith ffyrnig gan wrandawyr traddodiadol yr orsaf ond roedd Aled yn ddi-droi'n ôl.

A nawr mae e wedi ein gadael.

Does dim geiriau mewn gwirionedd all gyfleu'r galar mae'n gadael ar ei ôl. Fe ddaw'r amser i ofyn 'pam' a 'sut' ond, am nawr, y cyfan sydd i'w wneud yw cofio gwên a haelioni gŵr wnaeth oleuo cymaint o fywydau.

*Vaughan Roderick*

### Gair o Ddiolch gan y Teulu

Fel teulu, mi hoffen ni ddiolch o waelod calon i bobl am eu holl eiriau caredig a chefnogaeth yn ystod y cyfnod anodd yma. Mae'r holl ofal a chariad yn golygu gymaint i ni. Rydan ni'n lwcus iawn i fyw mewn dinas mor ofalgar.

Afryl, Gwenllian, Gruffudd, Ynyr,
Hannah, Deio a Casi x

## Cylch Meithrin y Garth



Cylch Meithrin newydd yw Cylch Meithrin y Garth sydd wedi ei leoli yn Neuadd Gymunedol Tŷ Rhiw, Ffynnon Taf. Cychwynnodd y cylch ym mis Medi ac mae 12 o blant yn mynychu'r cylch. Arweinydd y cylch yw Aimee Jones ac mae Daniel Bratcher yn ei chynorthwyo. Yn y Cylch Meithrin mae plant o ddwy flwydd oed i fyny yn cael cyfle i gymdeithasu, i chwarae ac i fwynhau trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg. Cynhelir sesiwn Ti a Fi yn y cylch hefyd bob dydd Gwener. Rydym yn gweithredu'r model 'Chwilfrydedd Chwarae' yn y cylch ac yn defnyddio adnoddau naturiol a'r ardal y tu allan i hybu annibyniaeth a chwilfrydedd y plant. Ein gweledigaeth yw grymuso a sbarduno ein plant wrth greu diwylliant o chwilfrydedd trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg. Rydym yn cynnig sesiwn brecwast, bore, cinio a phrynhawn. Yn ogystal rydym yn cynnig gwasanaeth gofal cofleidio i'r ysgol Gymraeg leol. Os am fwy o wybodaeth, cysylltwch â cylchmeithrinygarth@gmail.com

# Colofn Chwaraeon Hywel Owen

## DIOLCH GARETH!

Yn dilyn Cwpan y Byd, bu cryn ddyfalu am ddyfodol rhai o chwaraewyr profiadol tîm pêl-droed Cymru. Er mai siomedig fu perfformiadau Cymru, y disgwyl oedd y byddai mwyafrif y chwaraewyr yn parhau i chwarae a cheisio sicrhau bod Cymru yn cyrraedd Pencampwriaeth Ewrop yn yr Almaen yn 2024. Ond ganol prynhawn dydd Llun 9 Ionawr daeth cyhoeddiad dramatig fod Gareth Bale yn ymddeol yn llwyr o chwarae pêl-droed ac yntau ond yn 33 oed. Er bod y newyddion wedi bod yn sioc i lawer, rhaid cydnabod efallai ei fod yn beth da fod chwaraewr mor ddisglair yn gallu gorffen ar ei delerau ei hun. Er na fu Bale, fel y mwyafrif o chwaraewyr Cymru, ar eu gorau yn Qatar, yn ddi-os yr oedd llwyddo i gyrraedd Cwpan y Byd yn uchafbwynt gyrfa Bale.




Yn sicr, Bale yw'r chwaraewr mwyaf llwyddiannus yn hanes pêl-droed Cymru gan dorri pob record i dîm dynion Cymru o ran capiau a goliau – 111 o gapiau a 41 gôl. Cafodd yrfa ddisglair hefyd gan serennu i nifer o glybiau, yn enwedig Tottenham Hotspur a Real Madrid, ond bydd darllenwyr *Y Dinesydd* yn ei gofio yn bennaf am ei berfformiadau dros Gymru. Llwyddodd i chwarae yn ystod oes aur y tîm cenedlaethol gan chwarae mewn dwy bencampwriaeth Ewrop a Chwpan y Byd yn Qatar.

Cefais y pleser o weld y mwyafrif o goliau Bale dros Gymru. Bydd gan bawb atgofion personol o goliau Bale, ond yn fy marn i dyma fy hoff goliau a'r pwysicaf o'r 41 a sgoriodd dros Gymru:

**7 Hydref 2006 (Slofacia)** Cymru'n colli 5-1 yn Stadiwm y Mileniwm ond Bale yn sgorio ei gôl gyntaf dros ei wlad – cic rydd wefreiddiol.

**12 Hydref 2012 (Yr Alban)** Cymru'n ennill 2-1 gyda Bale yn sgorio dwy gôl hwyr yn y glaw yn Stadiwm Dinas Caerdydd.

**5 Mawrth 2014 (Gwlad yr Iâ)** Cymru'n ennill 3-1 gyda Bale yn sgorio gôl wefreiddiol ar ôl rhedeg hyd y cae.

**9 Medi 2014 (Andorra)** Cymru'n ennill 2-1 gyda Bale yn sgorio dwy gôl gan gynnwys cic rydd hwyr i sicrhau buddugoliaeth bwysig yn erbyn un o dimau gwaethaf y byd ar ôl i Andorra fynd ar y blaen.

**12 Mehefin 2015 (Gwlad Belg)** Cymru'n ennill yn erbyn un o dimau gorau'r byd gyda Bale yn sgorio'r gôl fuddugol.

**11 Mehefin 2016 (Slofacia)** Cic rydd wych gan Bale yn rhoi Cymru ar y blaen yn y gêm hanesyddol yn Bordeaux ym Mhencampwriaeth Ewrop.

**16 Mehefin (Lloegr)** Er colli i gôl hwyr gan Daniel Sturridge, llwyddodd Bale i sgorio cic rydd wefreiddiol cyn hanner amser i roi Cymru ar y blaen.

**20 Mehefin 2016 (Rwsia)** Sgoriodd Bale yn ystod perfformiad campus gan ennill 3-0.

**24 Mawrth 2022 (Awstria)** Sgoriodd Bale ddwywaith yn ystod gêm ail gyfle i gyrraedd Cwpan y Byd.

**5 Mehefin 2022 (Wcráin)** Bale yn sgorio cic rydd i sicrhau lle Cymru yng Nghwpan y Byd.

**21 Tachwedd 2022 (Unol Daleithiau)** Perfformiad siomedig gan Gymru yn y gêm gyntaf yng Nghwpan y Byd ond Bale yn sgorio o'r smotyn i sicrhau gêm gyfartal i Gymru.

Mae edrych yn ôl ar yrfa Bale a'r goliau pwysig a sgoriodd yn tanlinellu ei gyfraniad allweddol i lwyddiant Cymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Dwi'n amheus y gwelwn eto chwaraewr sydd wedi gwneud cymaint o gyfraniad i dîm Cymru. Dymuniadau gorau Gareth ar gyfer y dyfodol – ar y cwrs golff a gobeithio yn cynorthwyo'r genhedlaeth nesaf o chwaraewyr pêl-droed Cymru.

## Podlediad poblogaidd a Chymdeithas Bêl-droed Cymru yn cydweithio i gael diffibrilwyr i glybiau pêl-droed Cymru

Mae'r podlediad poblogaidd *The Socially Distanced Sports Bar* wedi ymuno â Chymdeithas Bêl-droed Cymru ac Achub Bywyd Cymru i gael diffibrilwyr i glybiau pêl-droed lleol ledled Cymru. Gall ataliad y galon ddigwydd i unrhyw un, o unrhyw oedran, ar unrhyw bryd. A phob munud sy'n mynd heibio heb CPR a diffibrilio, gall siawns person o oroesi ostwng o 10%. Mae cael mynediad at diffibrilwyr yn y gymuned yn hollbwysig.




Gall clybiau pêl-droed ledled Cymru sydd â diddordeb mewn derbyn diffibrilwr gysylltu ag @distantpod ar gyfryngau cymdeithasol. Mae'r podlediad hefyd wedi partneru â chwmni coffi lleol o Gaerdydd, *Fat Whites*, gyda'r holl elw yn mynd tuag at godi arian ar gyfer y diffibrilwyr a'r cabinetau ar eu cyfer. Mae'r coffi ar gael trwy'r ddolen hon:https://fatwhites.square.site/.

# Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd

Blwyddyn Newydd Dda i bawb!

Bu cyfnod y Nadolig yn adeg brysur i aelodau Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. Yng nghanol mis Rhagfyr cynhaliwyd gwasanaeth i ddathlu Gŵyl y Geni gyda nifer o'r aelodau yn cyflwyno carolau, darlleniadau a barddoniaeth addas. Rhoddodd y Parchedig Rosa Hunt, Gweinidog y Tabernacl, gyfarchion a'n harwain mewn gweddi bwrpasol i'r achlysur. Roedd yn gyfarfod bendithiol iawn. Casglwyd £170 tuag at *Shelter Cymru* yn y gwasanaeth.



*Marian Evans yn arddangos ei gwaith cwiltio cain*

I groesawu'r flwyddyn newydd ar 4 Ionawr, cafwyd bore cymdeithasol i rannu profiadau a gobeithion pawb ar gyfer 2023.

Ar 18 Ionawr croesawyd gwraig â thalent anhygoel mewn gwaith llaw i'r Aelwyd. Mae Marian Evans, Radur, wedi perffeithio llawer dull o frodwaith, o sampleri i gwiltio, ers 1974. Wedi graddio gydag anrhydedd drwy *City & Guilds* canolbwyntiodd ar gwiltio patrymau cywrain, er enghraifft un i'r Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd â phatrymau drama, y Nod Cyfrin, cerddoriaeth, cleff dwbl, a chwpled y Prifardd T. James Jones:

'Dwyn gorau dawn i Gaerdydd
Gryfha Walia, bwy gilydd.'

Mae'r cwilt dros dro yn arddangosfa *Stori Caerdydd* ond mae angen lle i'w arddangos yn barhaol!

Mae Marian yn arbenigo mewn patrymau cymhleth Amish sydd ym Mhensylfania nawr: *Log Cabin*, *Plât Dresden*, *gwyddau hedegog*, *Seren Bethlehem* ac eraill, y cyfan wedi'u pwytho â llaw. Roedd y Cwilt Cymreig coch, llwyd a du a'r Cwilt Manaw yn anhygoel! Eglurodd mai ystyr cwiltio yw 'sach wedi ei lenwi' mewn tair haenen, o'r Lladin *cuicitta*. Roedd pawb wedi eu syfrdanu gan ei dawn a'i chyflwyniad arbennig. Llywyddwyd y cyfan gan Mair Morgan.

**Cyfarfodydd nesaf** yn Bethel, Rhiwbeina am 11.00 a.m.: **1 Chwefror** – Bore Cymdeithasol; **15 Chwefror** – Trystan a Siân Francis; **1 Mawrth** – Dathlu Gŵyl Ddewi. **Croeso cynnes i bawb.**

'Mor braf yw rhannu o brofiadau gwiw
A hamddena yng nghwmni cyfeillion triw'.

*Menna Brown*

# Cymrodorion Caerdydd



Cafodd Cymrodorion Caerdydd noson ddymunol dros ben nos Wener 2 Rhagfyr yng nghwmni Gwenan Gibbard. Teitl ei chyflwyniad, dros *Zoom*, oedd 'Archif Merêd a Phyllis'. Dymuniad y Cymrodorion oedd nodi pen-blwydd Phyllis Kinney yn gant oed eleni, a phwy gwell i drafod ei chyfraniad mawr hi a Merêd i'n gwybodaeth a'n dealldwriaeth o'r cyfoeth o ganu gwerin a feddwn yn y Gymraeg na Gwenan Gibbard. Trosglwyddwyd archif sylweddol iawn Merêd a Phyllis o alawon a chaneuon gwerin i'r Llyfrgell Genedlaethol, a'r archif hon yw maes ymchwil doethurol Gwenan.

Eglurodd Gwenan fod Merêd wedi canolbwyntio'n bennaf ar eiriau'r caneuon a Phyllis ar yr alawon. Yn ogystal â chofnodi'r caneuon eu hunain gwnaed nodiadau manwl a threfnus am yr awduron, y cyfansoddwyr, a dyddiadau a lleoliadau perthnasol. Dyma gronfa amhrisiadwy o wybodaeth y bydd academyddion a pherfformwyr fel ei gilydd yn troi ati am genedlaethau i ddod.

Yn Gwenan cawsom y cyfuniad delfrydol o'r agwedd academaidd a'r ddawn i berfformio. I gyfeiliant ei thelyn Geltaidd canodd ddetholiad o ganeuon eithaf gwahanol. Yn eu plith roedd caneuon morwrol fel 'Ffarwel i Bencaenewydd', ac ambell un o'r rhain yn hiraethus a dwys fel 'Y llong na ddychwelodd yn ôl'. Yn yr un cywair mae'r caneuon sy'n deillio o ofid a phryder rhyfel, megis y gân gan wraig milwr sy'n holi'r gwcw a welodd hi ei gŵr wrth hedfan dros faes yn gâd. Wrth gwrs, cawsom glywed caneuon digri iawn hefyd, fel 'Sgert gwta nain' (roedd hon yn dipyn o gymeriad !) a 'Colli'r trên'.

Yn dilyn y cyflwyniad, cafwyd trafodaeth ddiddorol ar y gwahanol gasgliadau a wnaed o ganeuon gwerin, gan gynnwys gwaith 'Moi Plas' (Morris Davies) cyfaill Hedd Wyn. Diolchwyd i Gwenan am ei chyflwyniad hyfryd a diddorol gan y Llywydd, Rheinallt Thomas.

*Gwynn Matthews*

# Llys a Llan

*Colofn sy'n crwydro ar hyd meysydd llên, crefydd a hanes yng Nghaerdydd a'r Fro*

Yr Athro E. Wyn James



**Bwrlwm yn y Barri: D. Arthen Evans ym Mhwerdy'r Gymraeg** (Rhan 7)

Yn yr erthygl flaenorol yn y gyfres hon (yn rhifyn Hydref 2022), trafodwyd yr Eisteddfod Genedlaethol a gynhaliwyd yn y Barri yn 1920, eisteddfod arloesol mewn sawl ffordd ac un a ganmolwyd yn benodol am ragoriaeth ei threfniadau. Ysgrifennydd Cyffredinol yr Eisteddfod honno oedd D. Arthen Evans (1878–1936), enw sydd wedi codi droeon eisoes yn yr erthyglau hyn am 'Fwrlwm yn y Barri'. O gofio i Arthen gael ei alw ym mhapur newydd *Y Darian* ym mis Rhagfyr 1917 yn 'ŵr penderfynol a thrwyadl yn ei waith', gellid casglu mai ef sy'n haeddu llawer o'r clod am arloesedd a threfniadaeth esmwyth Eisteddfod 1920, ac yn sicr, ef yn fwy na neb a fu'n gyfrifol mai'r Barri oedd cartref y Brifwyl yn 1920. Yn wir, bu Arthen wrthi'n arwain ceisiadau am i'r Eisteddfod Genedlaethol gael ei chynnal yn y Barri am ryw ddeng mlynedd cyn iddi ymweld â'r dref.

Nid yw hynny'n syndod o gofio fod Arthen Evans yn eisteddfodwr brwd. Un o ardal Glynarthen yng ngodre Ceredigion ydoedd. Ymddiddorai'n fawr yn hanes a diwylliant ei fro enedigol ac fe'i gwelwyd, er enghraifft, yn ennill ar lunio traethodau am enwau lleoedd ardal yr eisteddfod mewn eisteddfodau lleol yn Llandysul (1908), Aberteifi (1909) a Chastellnewydd Emlyn (1910). Enillodd mewn eisteddfod yn Nhwr-gwyn, Rhydlewis, yn 1906 am draethawd ar y testun 'Beirdd Glannau Ceri'. Cyhoeddwyd y traethawd hwnnw yn llyfr yn ddiweddarach yr un flwyddyn ac mae copi ohono ar gael yn ddigidol erbyn hyn: http://hdl.handle.net/10107/5880443. Ond eithaf gwahanol oedd testun y traethawd a enillodd y wobr iddo mewn eisteddfod yn ardal y Barri y flwyddyn flaenorol, 1905, sef un am 'Freuddwydion' yn eisteddfod capel Calfaria, Tregatwg.

Fel y nodwyd mewn erthygl gynharach yn y gyfres hon (Mehefin 2022), cyhoeddodd Arthen nifer o erthyglau yn y cylchgrawn *Cymru* rhwng 1907 ac 1925 yn trafod geiriau llafar godre Ceredigion. Mae'n werth hefyd dynnu sylw at erthygl sylweddol ganddo yn *Nhrafodion* Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion am 1925–26 ar y testun 'Diogelu Enwau Lleoedd Cymru'. Ynddi, mae'n pwysleisio'r angen am gofnodi a dehongli 'hen enwau lleoedd Cymru', sydd (meddai) 'ymysg ein trysorau pennaf' ac yn ddrych i 'gryn lawer o hanes ein cenedl ni, ac o hanes datblygiad yr iaith Gymraeg'; ond fe'i cawn yn galw uwchlaw dim arall am hyrwyddo'r defnydd arnynt a rhwystro iddynt gael eu colli neu eu llurgunio. Dadleua, er enghraifft, wrth i bentrefi a threfi ledu dros dir ffermydd y dylid diogelu enwau'r ffermydd a'u caeau trwy eu mabwysiadu'n enwau ar dai a heolydd a maestrefi. Fe'i gwelwn hefyd yn mynd i'r afael â phwnc sy'n parhau'n un llosg heddiw, sef mater sillafu a safoni ffurfiau enwau lleoedd; ac fe drewir tinc cyfoes iawn wrth i Arthen apelio'n daer ar i bobl wneud eu gorau i gadw hen enwau lleoedd Cymru 'rhag y dinistr a'u bygwth [… wrth i] donnau brigwyn y llanw Seisnig [dorri] yn ddiarbed a dirwystr bron dros bob rhan o Gymru'.

Dylai fod yn amlwg erbyn hyn, gobeithio, mai un â'i galon yn llosgi dros Gymru a'r Gymraeg oedd D. Arthen Evans. 'Ein trysor pennaf i gyd', meddai, yw'r iaith Gymraeg, a gosodai bwys mawr ar y diwylliant Cymraeg, ei llên a'i chân, ac ar hanes Cymru, 'canys ni adeiledir dyfodol cenedl yn iawn ond ar ei gorffennol hi'.

Gellid crynhoi cyfraniad Arthen mewn tri gair: addysgydd, ymgyrchydd a threfnydd. Bu'n athro ysgol yn y Barri rhwng 1901 a'i farw yn 1936, ac yntau ond yn 58 mlwydd oed. Nid oedd y Gymraeg yn cael ei dysgu yn ysgolion y Barri pan ddaeth Arthen yno, ond fel y soniwyd yn y gyfres hon yn barod, bu ef ar flaen y gad yn yr ymgyrchu taer a arweiniodd at gynyddu'n arwyddocaol y ddarpariaeth Gymraeg yn ysgolion y dref.

Sefydlwyd Cymrodorion y Barri adeg Gŵyl Ddewi 1906, cymdeithas sy'n bod o hyd ac sydd wedi gwneud cyfraniad mawr dros y blynyddoedd i hybu Cymreictod yn y dref a'r tu hwnt. Y llywydd cyntaf oedd Edgar Jones, prifathro Ysgol Sir y Barri, ac etholwyd Arthen Evans yn ysgrifennydd. Daeth tua 150 ynghyd i ddathlu Gŵyl Ddewi dan nawdd y Cymrodorion ymhen y flwyddyn, yn 1907, ac ym marn y *Barry Dock News*: 'The gathering was a thorough success, much of which was undoubtedly due to the spirited efforts of the energetic hon. secretary, Mr D. Arthen Evans'.

O'r dechrau, bu Cymrodorion y Barri yn pwyso am gael dysgu'r Gymraeg yn ysgolion y dref, ac yn ogystal â chynnal rhaglen amrywiol o gyfarfodydd ar gyfer oedolion, nifer ohonynt yn anerchiadau gan ddarlithwyr gwadd o fri, trefnwyd rhai gweithgareddau ar gyfer plant, gan gynnwys cystadlaethau siarad Cymraeg a chyfarfodydd canu alawon Cymreig, er mwyn meithrin eu diddordeb a'u medr yn y Gymraeg a'i diwylliant.

Fel y crybwyllwyd eisoes yn y gyfres hon, bu tri o enwau amlycaf y mudiad addysg i oedolion yng Nghymru yn hanner cyntaf yr 20fed ganrif yn byw yn y Barri yng nghyfnod y Rhyfel Byd Cyntaf, sef Mary a Silyn Roberts a'u cyfaill, Thomas Jones (Rhymni). Ond mae'n werth ychwanegu bod y Barri wedi arloesi yn y maes hwnnw rai blynyddoedd cyn i'r tri symud yno, oherwydd yn y Barri yn 1906 y sefydlwyd y gangen gyntaf o Gymdeithas Addysg y Gweithwyr (y WEA) yng Nghymru. Roedd Arthen Evans yntau'n frwd dros hybu addysg i oedolion. Erbyn 1905 fe'i gwelwn yn dysgu'r Gymraeg mewn dosbarth nos dan Fwrdd Addysg y Barri, ac erbyn 1908 roedd yn dysgu'r Gymraeg yn ei gapel, y Tabernacl, yn rhan o gynllun gan gapeli Cymraeg y Barri i gynnal dosbarthiadau

dysgu Cymraeg dan arolygiaeth y Llywodraeth, am fod cynifer o'u mynychwyr ymhell o fod yn rhugl yn yr iaith.

Gwelwyd symudiad arwyddocaol yn niwedd y 19eg ganrif a dechrau'r 20fed ganrif i greu cymdeithasau Cymraeg, ac roedd sefydlu Cymrodorion y Barri yn 1906 yn rhan o'r symudiad hwnnw. Un peth a yrrai'r datblygiad hwn yn ei flaen oedd yr adfywiad gwladgarol a diwylliannol Cymreig a brofwyd o tua diwedd y 19eg ymlaen ac a gysylltwn â mudiad 'Cymru Fydd'. Ond rheswm arall oedd y bygythiad amlwg i'r Gymraeg a'i diwylliant o du'r hyn a alwai Arthen Evans yn 'llanw Seisnig', a fu ar gynnydd arwyddocaol o'r 1870au ymlaen, yn y de-ddwyrain yn arbennig ac yn enwedig oherwydd ymfudo sylweddol o'r tu allan i Gymru a dyfodiad addysg Saesneg orfodol.

Dyma ddyfyniad o erthygl gan Arthen ar 'Y Gymraeg a'r Llanw Seisnig' yng nghylchgrawn O. M. Edwards, *Cymru*, yng Ngorffennaf 1909 sydd, ymhlith pethau eraill, yn dangos ei allu i ysgrifennu'n afaelgar:

> Un o beryglon mawrion Gwent a Morgannwg heddiw yw colli'r Gymraeg fel iaith y teulu a'r gwasanaeth crefyddol. Collwyd hi eisoes fel iaith yr heol. Tyr y llanw Seisnig megis ton anferth dros yr holl fro, ac ofnwn mai gorchuddio'r Gymraeg wna fel y gorchuddiwyd Cantref y Gwaelod gynt. Dichon y llecha'r Gymraeg oesau lawer ar lechweddau creigiog Gwynedd, ar rostir mawnoglyd Ceredigion, ac ar wastadeddau ffrwythlon Môn a dyffryn Tywi; ond ofnwn ar brydiau mai yr un dynged sy'n aros ein hiaith yn y rhannau hyn hefyd. Daw'r dylanwad Seisnig fel gwynt dwyreiniol difaol, ac fe rynna'r Gymraeg yn yr oerfel.

Yn ddiddorol iawn, mewn erthygl gynharach yn *Cymru*, yn rhifyn Ebrill 1909 ar y testun 'Cymru a'r Beibl Cymraeg', mae Arthen Evans yn rhoi rheswm pellach dros y symudiad i sefydlu cymdeithasau gwladgarol Cymraeg yn ei gyfnod ef, sef dylanwad Diwygiad 1905. Fel canlyniad i'r diwygiad crefyddol hwnnw, meddai, 'torrodd ton o ysbryd gwladgarol dros ein gwlad', gan esgor ar 'lu o gymdeithasau gwladgarol er hyrwyddo ein hiaith a'n llên' – ac, fel y noda Arthen, mae hynny'n dilyn patrwm cyffredin iawn yn hanes Cymru, lle y gwelwn yn aml adfywiad ysbrydol ac adfywiad diwylliannol a gwladgarol yn cyd-ddigwydd. Dywed Arthen am Ddiwygiad Methodistaidd y 18fed ganrif, er enghraifft: 'Megis ag y tyfai meillion yn ôl troed Olwen, felly y dilynwyd y diwygiad crefyddol hwn gan lu o ddiwygiadau eraill. Anadlwyd bywyd newydd i wleidyddiaeth ac addysg Cymru. Gweddnewidiwyd cymdeithas.'

Mae Arthen Evans yn rhoi cryn sylw yn ei erthygl ar y 'llanw Seisnig' i gysylltiad Cristnogaeth a ffyniant y Gymraeg. Meddai yno: 'Credwn y bydd colli'r Gymraeg fel iaith crefydd yn rhagfynegi ei llwyr ddiflaniad o'r tir. […] Y rhannau mwyaf crefyddol o'n gwlad yw'r siroedd hynny lle'r erys y Gymraeg yn ei grym a'i gogoniant. […] Dydd angladd y Gymraeg fydd dydd claddu emynau Morgan Rhys, Pantycelyn, Ann Griffiths ac Ieuan Glan Geirionydd.' A beth bynnag yw ein barn am y pethau hyn, fel y mae'r Cyfrifiad diweddaraf wedi tanlinellu, mae'n ffaith drawiadol fod twf seciwlariaeth a dirywiad y Gymraeg wedi cydgerdded yn agos yn ystod y can mlynedd a rhagor oddi ar i Arthen ysgrifennu'r geiriau hynny.

Bu raid i Arthen Evans roi'r gorau i fod yn ysgrifennydd Cymrodorion y Barri yn 1914, a hynny yn sgil datblygiad hynod bwysig yn genedlaethol, ac at hynny y trown y tro nesaf.

(*I'w barhau*)

# Cymdeithas Gymraeg Dinas Powys

Ers blynyddoedd bu Cymdeithas Gymraeg Dinas Powys yn cynnal noson elusennol ddiwedd mis Tachwedd. Yn ddiweddar, cyn y Nadolig, adferwyd y traddodiad wedi toriad er 2020, diolch yn fawr Mr Cofid!! Y newid mawr oedd y byddai'r noson yn noson gyri a chigydd lleol yn darparu'r arlwy. Roedd y merched sydd wedi bod mor brysur dros y blynyddoedd yn falch o'r hoe a diolch mawr iddyn nhw i gyd am eu gwaith caled yn paratoi'r saladau, ham, tatw ayyb yn y gorffennol.

Plant mewn Angen oedd ein dewis o elusen. Yn ystod y cyfnod anodd hwn codwyd llawer mwy na'r disgwyl. Daeth y boneddigesau Ann Williams a Mehefin Parry Jones i'n diddanu a dyna agoriad llygad - deuawd acordion a thelyn! Roedd eu rhaglen o gerddoriaeth amrywiol yn heintus. Canwyd carolau cynta'r tymor, am wn i, ar y noson. Diolch i Menna Joynson am gyfeilio. Hyfryd o noson yn llawn hwyl.


*Rhodri Jones, Cadeirydd y Gymdeithas, yn cyflwyno siec i Emma Berry, cynrychiolydd elusen Plant mewn Angen.*

Ar ddechrau mis Rhagfyr cynhaliwyd cyfarfod 'Coffi, Cacen, Carolau a Clonc'. Daeth criw at ei gilydd ar fore 12 Rhagfyr yn y Kynance, Dinas Powys. Cyfarfod o straeon, atgofion Nadoligau'r gorffennol yn gymysg â chanu carolau. Difyr iawn oedd yr atgofion, o waith fferm ar ddydd Nadolig 'slawer dydd i stori ysbryd wedi ei recordio gan y Parchg Jacob Davies, Alltyblaca, yn y pumdegau. Roedd tipyn o iâs ar ganu *Tawel Nos* wedyn. Yn ystod y cyfarfod cyflwynwyd siec o £1000, i Emma Berry cynrychiolydd yr elusen.

Mae'r Gymdeithas yn cael hoe nawr tan 13 Chwefror pan fydd y Fonesig Siân Meinir yn dod i'n diddanu. Bydd croeso cynnes i'w gael yn ein cwmni yn y Kynance, Dinas Powys am 11.00 y bore. Felly, Blwyddyn Newydd Dda i chi i gyd, cadwch yn saff a gobeithio y bydd 2023 yn flwyddyn lawen a llon i'r byd, ei frawd a'i chwaer.

*Iris Cobbe*

# Bwytai Merch y Ddinas



## "Pei Corn Bîff"

Lowri Haf Cooke

Pei Corn Bîff. Dyna wnaeth fy nenu i yno. I gaffi *Rocket & Rye* ar stryd fawr y Bontfaen. Tra'n bodio trwy Insta, gwelais lun o grwst euraidd yn sgleinio uwch haenen binc lachar. Brechdanwyd y darlun gan ddwy sleisen arall – negeseuon llawn llymder mis y Calan. Un neges i hysbysebu rhinweddau 'Ionawr Sych', a'r llall yn hwrjio dillad am hanner eu pris.

Pei corn bîff. Pei corn bîff. Fel Homer o *The Simpsons*, dechreuodd fy ngenau ddyfrio'n wyllt. Trodd fy meddwl fel corwynt o atgofion di-ri. Blwyddyn 2 Ysgol Glantaf. Glantaf Isaf ym Mhentrebaen. Cwis Daearyddiaeth; prifddinasoedd y byd. Montevideo. Asunción. Uruguay neu Paraguay? Ac i gorddi'r dyfroedd ymhellach, taflwyd enw dinas arall i'r pair. 'Fray Bentos yw prifddinas *corned beef* y byd?' Llais Miss Davies neu Mr Hayes? Pwy bynnag oedd wrthi, ges i 10 allan o 10.



Pei corn bîff. Pei corn bîff. Atgof arall, cynharach, o daith ysgol i Sŵ Bryste. Nid fy siwrne i oedd honno ond siwrne fy chwiorydd. Daeth yr atgof yn chwedl deuluol, yn atgof ar y cyd. Yn ddelwedd hyd heddiw i godi gwên. Yn wahanol i'r gred gyffredinol, nid '**E** sydd am yr epa mawr a welais yn y sŵ; os bydd yn ddrwg af ar ei ôl â ffon a gweiddi shŵ.' Nage wir... '**E** sydd am yr ellyll cas wnaeth ddwyn fy mrechdan corn biff!'



Pei corn bîff. Pei corn bîff. Oes na ginio mwy cysurlon yn y byd i gyd? A phei corn bîff Mam oedd y gorau, wir. Yn drît achlysurol ar ddiwrnod gaeafol, gwlyb. Agorwyd y tun gyda'i oriad ei hun! Dychmygwch y fath ddyfais. Jyst y peth ar gyfer diwedd y byd. Llithrodd un darn o gig â phatrwm marmor o'r tun, a'i stwnshio â thatws, yn lympiau i gyd. Bach o halen a phupur... a phersli. Ffres neu sych? Cyn ei osod mewn desgyl pestri, a gosod cwrlid uwch ei ben. Tacluso'r ymylon, a thaenu melynwy drosto â brwsh. Yna torri dau dwll yn ei ganol, er mwyn i'r hyfrydbeth anadlu'n rhydd. Mewn â'r pei i'r popty, ac am bersawr gwych! Yn wledd i'r synhwyrau, yn addewid o bleser pur. Ond unwaith i'r pei ddod o'r popty, roedd angen amynedd er mwyn iddo oeri. Wrth syllu ar y crwst gallwn daeru i mi glywed canu pedwar ar hugain o adar du. Yna, cyn cythru amdano, roedd un peth yn angenrheidiol; nesaf at sleisien ohono, gosodwyd smotyn bach sgleiniog o saws brown chwerwfelys HP. Gwych!

Pan fu farw Mam, roedd hi wir yn ddiwedd y byd. Ond estynnodd fy chwaer am allwedd y tun, a nawr hi yw ceidwad y pei corn biff. Bydd hi'n dweud o bryd i'w gilydd, 'dwi am neud pei corn biff'. Mae jyst clywed y geiriau yn teimlo fel trit. Yr un blas cysurlon sy'n goflaid i'r galon, yn enwedig ar ddiwrnod gaeafol, gwlyb.

Felly pan welais ganol Ionawr hysbyseb nid annhebyg, carlamais i draw ar fy union i'r Bontfaen. 'Corned beef pie in hot lard pastry' oedd y geiriau islaw'r darlun. Ymatebodd un dilynwr a phedwar emoji glafoeriog – nid fi yn unig oedd mewn stâd o berlewyg pur! Roedd *Rocket & Rye* yn fwrlwm i gyd, a ches i groeso gan y perchnogion, John a Ceri Cook. Fe gofiwch chi'u henwau, Ioddestwyr y ddinas, os fuoch chi erioed ym mwyty *Arbennig*, Pontcanna. Buon nhw hefyd yn llywio cwmnïau *Kapow Ribs*, byrgers *Hoff* a hefyd *Ember* yn yr Hen Lyfrgell. Wedi cymaint o brofiad, mae'r ddau yn 'dallt y dalltins' i'r dim. Mae'r fwydlen ganol dydd yn llawn seigiau poblogaidd, gan gynnwys cawl cig oen Theo, Tad-cu eu plantos. Ond wedi cyfarch y ddau, dymuno blwyddyn newydd dda, bu'n rhaid holi yn blwmp ac yn blaen. 'Ydy'r pei corn bîff ar y fwydlen heddiw?' gofynnais, â thinc gobeithiol yn fy llais...

Syrthiodd wyneb John, gan ddweud â chalon drom, 'mae'r gegin yn rhy fychan i ymateb i'r galw. Mae gormod o bobol yn prynu sleisen i fynd adre gyda nhw.' Sgrynsiais fy llygaid. Ochneidiais mewn rhwystredigaeth. Amhosib oedd cuddio fy siomedigaeth. Yna clywais lais John â chynnig arall gerbron. 'Ond mae ganddon ni *hash* corn bîff...'

Cododd fy nghalon. Am gynnig... gwahanol. Danteithiol. A digon dymunol... Wedi'r cyfan, byddai profi pei cystal ag un fy Mam, a fy chwaer, yn gwbl benffrwydrol... ac yn *llawer* 'rhy gormod' i'w handlo. Rhaid gwarchod ambell brofiad; mae rhai blasau'n rhy 'sbesial' i'w pardduo wrth eu cymharu ag eraill. Eisteddais a mwynheais ginio hynod ddymunol a smotyn o sôs coch wrth ei ymyl. A doniol oedd clywed y criw ar y bwrdd drws nesaf yn holi Ceri, 'Oes ganddoch chi'r pei corn bîff heddiw?'

Estynnais am fy ffôn i rannu'r hanes i gyd ar ein grŵp Whatsapp, Criw Ni. Roedd yr ymateb yn unfrydig, yn heintus a brwdfrydig. Ond y geiriau gorau oll? Neges syml gan fy chwaer. 'Nai neud pei corn bîff cyn bo hir.'

***Rocket & Rye*, 30 Stryd Fawr y Bontfaen CF71 7AG; 01446 775884**

***Bwytai Cymru* a *Canllaw Bach Caerdydd* gan Lowri Haf Cooke (£9.99 yr un)**

# Merched y Wawr Caerdydd

Ar drothwy'r Nadolig cawsom ein difyrru gan Tweli Griffiths a'n syfrdanodd gyda'i driciau consurio. Mae Tweli yn adnabyddus am ei yrfa hir a disglair fel newyddiadurwr a gohebydd ar S4C ac fel awdur dau lyfr. Ond y tro hwn dangosodd ei ddawn fel consuriwr – mae wedi ymddiddori ym myd consurio ers yn blentyn.

Ymhlith ei driciau, llwyddodd i ddyfalu eitemau, rhifau, lleoliad a pherson enwog a ddewiswyd gan aelodau o'r gynulleidfa. Dilynodd gyfarwyddiadau ei rith-gynorthwyydd personol, Siri, ar ei ffôn wrth arllwys diod i esgid un o'n haelodau ac yna'i dychwelyd i'w pherchennog mewn cyflwr perffaith, a llwyddodd i ddatrys pos ciwb Rubik mewn bag papur! Rhyfeddol!



Roedd gan Tweli ddau nod wrth berfformio – creu noson o hwyl a difyrrwch, a hefyd helpu'r achos yn Wcráin. Mae'n trosglwyddo unrhyw rodd a dderbynnir ganddo am ei sioeau i elusen sy'n helpu pobl Wcráin yn eu hadfyd. Roedd pawb wedi gwir fwynhau'r sioe a'r cyfle am glonc a mins peis cyn ymadael.

Ym mis Ionawr, cawsom gipolwg ar fyd dringwyr mynyddoedd pan ddaeth Iestyn Richards-Rees o Langyndeyrn atom i ddisgrifio'i alltaith i Everest yn 2015. Mae Iestyn yn ddringwr profiadol sydd wedi esgyn mynyddoedd ledled y byd. Y ddau sbardun sy'n ei yrru yw'r her o goncro mynydd a chael bod yng nghanol natur ar ei harddaf a'i mwyaf godidog. Uchelgais pob dringwr, wrth gwrs, yw dringo Everest, ac yn 2015 ymunodd Iestyn ag alltaith er mwyn codi arian i *Headway*, elusen sy'n agos at ei galon.

Mae paratoi'n drylwyr ar gyfer amodau heriol alltaith yn hollbwysig. Am fisoedd cyn ymadael, bu Iestyn wrthi'n rhedeg, ymarfer, cario pwysau, hyfforddi mewn lleoliadau uchel – a threulio amser mewn rhewgell ddiwydiannol hyd yn oed!

Mae pedwar llwybr yn arwain at gopa 8848m Everest. Dewisodd Iestyn Lwybr y Gogledd – mae'n anoddach na Llwybr y De ond mae llai o bobl a chiwiau. Byddai'n cymryd tri mis i gyrraedd y copa, gan symud o'r Gwersyll Cychwyn i'r Gwersylloedd Uwch yn araf a graddol er mwyn i'r corff ymgyfarwyddo â'r newid mewn pwysedd aer. Gelwir y lefel uwchlaw 8000m y 'Parth Marwolaeth', gan fod y perygl o oedema yn dwysáu, ynghyd â pherygl ewinrhew a llosg haul difrifol.

Ond daeth tro annisgwyl ar gynlluniau Iestyn cyn cyrraedd y copa. Ar 25 Ebrill, trawyd Nepal gan ddaeargryn trychinebus $7.8M_w$ a laddodd bron 9,000 o bobl, yn cynnwys 24 o ddringwyr, ac a achosodd ddifrod helaeth. Yn ffodus, roedd Iestyn a'i dîm yn ddigon uchel i osgoi niwed a chawsant eu cludo i Khatamandu lle gwelsant mor frawychus fu maint ac effaith y daeargryn. Arhosodd Iestyn yn Nepal i helpu i gludo nwyddau i bentrefi allan yn y wlad a oedd wedi dioddef yn fwy na'r ddinas hyd yn oed. Roedd un pentref wedi colli ei hysgol a'i ysbyty a phenderfynodd y byddai'n codi arian i ailadeiladu'r rhain. Ar ôl cyrraedd adre, bu Iestyn yn mynd o gwmpas ysgolion a chapeli yn siarad am ei alltaith a'r daeargryn, gan godi arian ar gyfer *Headway* a'r pentref yn Nepal.

I gloi'r sesiwn disgrifiodd Iestyn yr amrywiaeth o ddillad ac offer sy'n hanfodol ar gyfer alltaith o'r fath. Cafodd dwy wirfoddolwraig gyfle i wisgo a chario rhai o'r eitemau hyn. Noson hynod ddifyr a diddorol!

*Joy Davies*



***Iestyn Richards-Rees yn arddangos offer alltaith***

# NEWYDDION O'R EGLWYSI

## EGLWYS DEWI SANT

**Y gwaith ar ffenestri'r Eglwys**

Mae'r gwaith o adnewyddu ffenestri festri'r côr a'r ffenestri ar y naill ochr i'r allor yn mynd rhagddo. Mae sgaffaldau yn y cysegr ers diwedd Tachwedd, ac felly ni fu'n bosibl defnyddio'r brif allor dros yr Adfent a'r Nadolig. Llwyddwyd i osod allor symudol Capel Mair yn y gangell ac aeth y gwasanaethau rhagddynt yn ddidraffeth.



*Sgaffaldau yn y cysegr*

**Gweithdy a Gwasanaeth Plygain.**

Cynhaliwyd gweithdy Plygain yn Eglwys Dewi Sant brynhawn Sadwrn, 3 Rhagfyr, ac yna gwasanaeth Plygain yn yr hwyr. Dyma fenter newydd a chafwyd ymateb cadarnhaol iawn.

**Cinio Nadolig yr Eglwys**

Cynhaliwyd y cinio eleni yng Nghlwb Golff Caerdydd bnawn Sul, 11 Rhagfyr. Diolch i Delyth Davies a Rhys Jones am drefnu.

**Parti Nadolig yr Ysgol Sul**

Cynhaliwyd y parti fore Sul, 18 Rhagfyr, a chroesawyd ymwelydd arbennig gydag anrhegion i'r plant.

**Gwasanaethau'r Nadolig**

Nos Sul, 18 Rhagfyr, cynhaliwyd Gwasanaeth Carolau. Roedd yn braf cynnal Carolau'r Cilgant ar gyfer gweithwyr swyddfeydd y Cilgant a'r cyffiniau yn yr eglwys unwaith eto ar bnawn Mercher, 21 Rhagfyr. Noswyl Nadolig cynhaliwyd gwasanaeth carolau byr dros *Zoom* ac yna am 11.00 yr hwyr cafwyd Cymun Cyntaf y Nadolig yn yr eglwys. Ar fore'r Nadolig cynhaliwyd gwasanaeth o'r Cymun Bendigaid gyda Charolau. Cafwyd cyfarfod Cristingl bendithiol nos Sul, 8 Ionawr. Diolch i bawb fu'n gyfrifol am greu'r Cristinglau.

**Ymweliad yr Archddiacon**

Cynhaliwyd Ymweliad yr Archddiacon ag Ardal Weinidogaethol Calon y Ddinas ar 14 Ionawr lle bu cynrychiolaeth o Eglwys Dewi Sant a'r pedair eglwys arall sy'n rhan o Galon y Ddinas yn trafod cynlluniau ar gyfer datblygu eu cenhadaeth dros y degawd nesaf.

**Coffi a Chlonc**

Cynhaliwyd y Coffi a Chlonc arferol fore Sadwrn, 21 Ionawr.

**Banc Bwyd Caerdydd a Chymorth i Wcráin**

Diolch i bawb a gyfranodd nwyddau i'r Banc Bwyd ac Apêl Wcráin.

**Llongyfarchiadau**

Llongyfarchiadau i'r Parchedig Siôn Brynach ar ei benodiad yn brif weithredwr Cytûn. Dymunir pob bendith iddo yn ei swydd newydd.

## EBENESER

**Dathliadau Nadolig 2022**

Cafwyd gwasanaethau bendithiol dros fis Rhagfyr a braf iawn oedd gallu dathlu gŵyl geni ein Gwaredwr ar ôl dwy flynedd o gyfyngiadau. Roedd y gwasanaeth teuluol ar arddull Llanllanast yn arbennig, gyda'r aelodau'n ymuno efo'r plant mewn gweithgareddau amrywiol a chafwyd un neu ddwy o garolau a neges fer. Roedd gallu cymysgu a dathlu wedyn gyda 'chydig o fwyd ar y diwedd yn gyfle gwych i gymdeithasu sy'n rhan mor bwysig o fywyd yr eglwys. Cafwyd cyfle hefyd fel aelodau i gyd-addoli a chanu carolau. Dyna biti nad dyn ni'n eu canu nhw hefyd yn ystod y flwyddyn.

**Colled deuluol**

Estynnwn ein cydymdeimlad i Enfys Harding a gollodd ei mam a mam-gu yn 94 oed. Cydymdeimlwn â Luned a Huw Aaron a'r teulu. Bu farw nain Luned, sef Mair Davies, ym Mhenarth.

**Angor**

Cafwyd dau gyfarfod hyfryd yn nhymor yr Adfent. Daeth Meilyr Geraint atom i arwain yr addoliad ar bnawn Sul 11 Rhagfyr a chafwyd noson garolau ym mhafiliwn Grangetown ar nos Iau y 15ed. Mae cyfarfodydd Angor wedi ailddechrau yng Nghanolfan *Reach*, Grangetown, bob yn ail wythnos am 4:30 y pnawn. Bydd y cyfarfod nesaf ar 26 Chwefror gyda Carys Mair Jones yn siarad. Mae digon o le i barcio drws nesaf wrth y Ganolfan Chwaraeon. Croeso mawr i bawb. Bydd cwrdd gweddi am yn ail ar *Zoom*.

**Pen-blwydd arbennig**

Fyddech chi'n fy nghoelio bod y Parchg Ifan Roberts wedi dathlu ei ben-blwydd yn 70 oed ar 15 Ionawr? Deallwn iddo gael dathliad bach hyfryd gyda'r teulu. Llongyfarchiadau hefyd i Glesni Whettleton ar gyrraedd pen-blwydd go arbennig yn ystod mis Ionawr.

## YR EGLWYS EFENGYLAIDD

**Aelodau Newydd**

Roedd yn hyfryd yn ddiweddar dderbyn Elen Brown a Jason Pearce yn aelodau o'r eglwys. Dymunwn bob bendith arnynt wrth iddynt ymgartrefu gyda ni.

**Bedydd**

Llawenydd mawr i'r eglwys gyfan oedd gweld tri o bobl ifanc yr eglwys yn tystio i'w ffydd drwy gael eu bedyddio. Roedd Fflur, Morus a Rhodri yn dweud iddynt gael eu codi mewn teuluoedd Cristnogol a mynychu'r capel yn gyson ers yn rhai bach ond daeth y tri i sylweddoli bod rhaid dod drostynt eu hunain i ffydd bersonol yn Iesu Grist. Dywedodd rhywun unwaith nad oedd gan Dduw wyrion, dim ond plant yn unig.

**Paned a Sgwrs**

Yn un o'n cyfarfodydd yn ddiweddar rhannodd Rhian Williams â ni beth o hanes y bardd bregethwr Nantlais. Bu Nantlais yn weinidog ar eglwys Bethany, Rhydaman am dros ddeugain mlynedd. Cafodd diwygiad 1904 ddylanwad mawr iawn arno. Penderfynodd o hynny ymlaen y byddai'n cysegru ei amser i waith yr efengyl yn eglwys Bethany. Roedd hefyd yn fardd dawnus ac ysgrifennodd nifer helaeth o emynau i blant a chofiwn am ei garol hyfryd, 'Suai'r gwynt'. Roedd yn arbennig o addas mai Rhian a rannai'r hanes gan mai ei thad y Parchg J. D. Williams olynodd Nantlais fel gweinidog yn Bethany ac roedd ganddi gof plentyn bach ohono.

**Dymuniadau Da**

Dymunwn yn dda iawn i Rhiain Lewis wrth iddì wella'n raddol o'i salwch. Fe welwn ei heisiau hi a Keith yn fawr.

## BETHLEHEM, GWAELOD-Y-GARTH

**Oedfaon / Ysgol Sul (tymor ysgol) (10:30 a.m.):**
**Mis Chwefror 2023:**
5 Chwefror: Cymun a Bedydd - Delwyn Siôn
12 Chwefror: Parchg Robin Samuel
19 Chwefror: Oedfa'r Cwrdd Merched
26 Chwefror: Parchg R. Alun Evans
**Mis Mawrth:**
1 Mawrth – Oedfa Dydd Gŵyl Ddewi (am 9:30 a.m.)

Ydy'r flwyddyn newydd yma wedi dod â bendithion neu ofid i'ch bywyd? Mae'n siŵr y byddai'r mwyafrif ohonom yn mynegi ein bod wedi'n cyffwrdd gan y naill a'r llall yn ystod mis cyntaf y flwyddyn.
Ond tybed nad oeddem i gyd yn falch o weld cefn 2022, yn enwedig yn sgil cyhoeddi manylion y Cyfrifiad, a gynhaliwyd yn 2021, yng nghyd-destun siaradwyr Cymraeg a'r nifer oedd yn arddel y ffydd Gristnogol?
Dewisodd 2.9 miliwn o ymatebwyr yng Nghymru (93.7%) ateb y cwestiwn gwirfoddol am grefydd yn 2021, ond dewisodd 195,000 (6.3%) beidio ag ateb.
Nododd 1.4 miliwn o breswylwyr arferol yng Nghymru 'Dim crefydd' yn 2021 (46.5% o'r boblogaeth). Fe wnaeth mwy o bobl nodi 'Dim crefydd' nag unrhyw ymlyniad crefyddol unigol.
Dywed adroddaiad *Crefydd, Cymru a Lloegr: Cyfrifiad 2021* [Swyddfa Ystadegau Gwladol]:
'Gwelwyd gostyngiad mwy yn nifer y bobl a nododd "Cristnogaeth" fel crefydd yng Nghymru (gostyngiad o 14.0 pwynt canran, o 57.6% yn 2011 i 43.6% yn 2021) a chynnydd mwy yn y nifer a nododd "Dim crefydd" (cynnydd o 14.5 pwynt canran, o 32.1% yn 2011 i 46.5% yn 2021) o gymharu â Chymru a Lloegr yn gyffredinol.'
["Dim crefydd": Caerffili (56.7%), Blaenau Gwent (56.4%), a Rhondda Cynon Taf (56.2%)].
Beth felly am Fethlehem, Gwaelod-y-garth a phob Bethlehem arall trwy Gymru? Hwyrach y bydd y bwrlwm a'r mwynhad a gyflwynwyd ar ddalennau rhifyn diweddaraf *Gair bach Bethlehem* – cylchlythyr y capel - yn fodd o gydnabod na fyddwn yn barod i roi'r ffidil yn y to am beth amser eto.
Cymerwch gip ar www.bethlehem.cymru


Blwyddyn Newydd Dda!
Gair bach Bethlehem 39
www.bethlehem.cymru (trydar) @GweBethlehem Gwaelod-y-garth – rhif 39 (Rhifyn canol Ionawr 2023)
(Arbedwch inc a phapur! Peidiwch ag argraffu hwn – dim ond ei ddarllen ar-lein.)
'Does dim angen egluro'r olygfa uchod! Mae rhagor o luniau o'r Ddrama Nadolig ar dudalen 5 a 6. Ar ddiwedd yr oedfa, cyflwynwyd blodau i Heulwen Jones a Delyth Evans (isod) am eu holl waith yn paratoi'r plant.
Do, fe alwodd Sion Corn!
*Wedi i'r Ddrama Nadolig orffen, daeth ymwelydd poblogaidd iawn i blith y rhai fu'n ymddangos yn y cyflwyniad – neb llai na Sion Corn ei hunan. Roedd wedi galw heibio ar ôl clywed am y gwaith caled wnaed gan aelodau'r Ysgol Sul.*

## EGLWYS MINNY STREET

www.minny street.org @MinnyStreet
Gweinidog: Y Parchedig Owain Llŷr Evans

**Oedfaon y Sul a'r Ysgol Sul**
Ein Gweinidog fydd yn arwain oedfaon 5, 12 a 19 Chwefror ac edrychwn ymlaen eto at ei arweiniad ysbrydoledig. Cynhelir oedfa gymun fore Sul, 5 Chwefror. Thema oedfaon 12 Chwefror fydd 'Byd Gwyrdd Duw'. Byddwn yn croesawu'r Parchg Dyfrig Rees (bore) a'r Parchg Aled Edwards (hwyr) i arwain yr addoliad ar Sul olaf y mis (26 Chwefror). Yn ystod oedfaon 5, 19 a 26 Chwefror y bydd yr Ysgol Sul yn cyfarfod.

**Gweithgarwch y mis**
Cafwyd amrywiaeth ddifyr o weithgareddau yn ystod mis Ionawr, gan gynnwys sgwrs a chlonc dros ginio yng nghartref aelod, Plygain llawen a llwyddiannus, sesiwn Caffi Celf obeithiol a sgwrs hwyliog a buddiol yn y Gymdeithas am y bêl gron. Braf oedd ailgydio yng nghyfarfodydd Bethania a Koinonia ym mis Ionawr a chynnig 'Croeso Cynnes' i'r gymuned leol yn y festri. Parhau fydd yr amrywiaeth ym mis Chwefror. Bydd PIMS yn cyfarfod nos Lun, 6 Chwefror a nos Iau, 15 Chwefror (19.00). Bydd gwledd o ffilm ar ein cyfer nos Fawrth, 8 Chwefror am (19:00); gyda Teilo y byddwn yn ciniawa fore Gwener, 10 Chwefror (11:30). Bydd dau gyfarfod o Bethania (14 a 28 Chwefror) a defosiwn Tymor y Grawys nos Fercher, 22 Chwefror (19:30). Bydd y Gymdeithas yn croesawu Kate Crockett ar 7 Chwefror a'n cyd-aelodau Lynwen ap Gwynedd a Ieuan Davies ar 21 Chwefror. Bydd cyfle i gymdeithasu ymhellach yn Koinonia yn dilyn oedfa hwyrol 19 Chwefror. Edrychwn ymlaen at holl weithgarwch y mis ac at noson o ddefosiwn a chawl o dan arweiniad ein gweinidog nos Fercher, 1 Mawrth.

**Cydymdeimlo**
Cofiwn yn annwyl a diolchgar am Ray Philips (Rhiwbeina) fu farw ym mis Rhagfyr. Cydymdeimlwn yn ddiffuant â'r teulu ac â'i holl gyfeillion.

## BETHEL, RHIWBEINA

Yn ystod y mis cawsom gyfle i groesawu'r Parchg Dafydd Owen, y Parchg Eirian Rees, Mansel Jones ac Emlyn Davies.

Cyn y Nadolig cynhaliwyd bore coffi yn y capel. Daeth nifer o aelodau a chyfeillion ynghyd a chodwyd swm sylweddol ar gyfer elusen y Banc Bwyd.

Ar 18 Ragfyr cynhaliwyd gwasanaeth Nadolig yng ngofal yr aelodau. Diolch i bob un a gyfrannodd trwy ddarllen neu ganu. Diolch i Gwilym Roberts am drefnu'r côr ac i Alun Guy am ymuno â ni i ganu'r organ.

Daeth nifer o blant i'r gwasanaeth i gyflwyno eitemau Nadoligaidd, a braf oedd cael eu cwmni ar ôl cyfnod hir hebddynt. Cawsant gyfle i gwrdd â Siôn Corn yn dilyn y gwasanaeth. Diolch i Siân a Trystan Francis am drefnu'r gweithgareddau. Gobeithiwn gael cwmni'r plant eto cyn hir i ddathlu Gŵyl Dewi a'r Pasg.

## BETHEL, PENARTH

Mae nifer o'n haelodau yn cael eu blino ar hyn o bryd gan amrywiol anhwylderau. Anfonwn ein cyfrarchion gwresog, cariad a dymuniadau am wellhad buan.

Llongyfarchion hael iawn i un o blant Bethel, Llinos Haf Jones, sy wedi ennill ysgoloriaeth i gychwyn o fis Medi ar ran nesaf ei gyrfa yn gantores. At hyn, teimlwn yn falch iawn drosti wrth glywed y bydd hi'n canu rhan yn opera *Y Ffliwt Hud* gyda Chwmni Opera Cymru cyn bo hir. Hyfryd nodi y bydd aelod ffyddlon iawn ym Methel, Sian Meinir, hefyd yn canu rôl yn yr un opera. Heb orymffrostio, sawl eglwys yng Nghymru sy â dwy o'i ffyddloniaid ar yr un llwyfan opera cenedlaethol? Ar un adeg bu Sian yn athrawes ganu ar Llinos.

Llongyfarchwn Sian ar ennill gradd MA mewn ysgrifennu creadigol o Brifysgol Bangor. Gwyliwch am ei nofel gyntaf.

Yn dilyn oedfa gyntaf eleni cyhoeddodd ein gweinidog, Y Parchedig Kevin Davies, ei fod yn bwriadu ymddeol eleni. Daw cyfle arall maes o law i ni sôn amdano a'i weinidogaeth yr yr Ofalaeth. Mae'r gwaith wedi dechrau o baratoi at bennod newydd yn hanes addoliad Cristnogol, cynulleidfaol, Cymraeg ym Mhenarth a'r Barri.

Dros y ddeufis diwethaf mae Kevin wedi'n tywys mewn myfyrdod ar sawl agwedd o'n ffydd. Hwyrach un newid trawiadol sy wedi taro rhai yw'r gwahanol emynau y mae wedi'u dewis yn *Intrada*, megis 42 a 52. Dro arall cyffyrddodd â hanes Cain ac Abel, gan beri i rai ohonom ystyried y cwestiwn: Pa fath o Dduw oedd yn gweithredu'r fath ffafriaeth annheg?

Wrth lunio'r nodiadau hyn (27 Ionawr) edrychwn ymlaen at arweiniad ein cyd-aelod Rhodri ar y 29ain.

## TABERNACL, YR AIS

Cydymdeimlwn â Rosa, ein hannwyl weinidog, ei phriod Francis, a'r bechgyn Dan, Josh a Tim yn dilyn y newyddion trist am farwolaeth sydyn Chris. Roedd yn fab a brawd oedd mor annwyl iddynt ac fe fydd bwlch enfawr yng ngwead y teulu.

Cofiwn hefyd am Manon, Rhys ac Esther yn dilyn marwolaeth Greta George.

Daeth nifer ynghyd i Glanrafon, cartref Ann Williams, i brofi caws a gwin. Codwyd £560 i'w rannu rhwng Cartref Glyn Nest ac elusen lewcemia er cof am Nigel Baker. Cafwyd noson ddifyr ac amrywiol.

Braint yn ystod mis Rhagfyr oedd cael pedwar o gorau Caerdydd yn cynnal eu cyngherddau yn y Tabernacl – Côr y Waun Ddyfal, Côr y Gleision, Côr CF1 ac Ysgol Glantaf.

Llongyfarchiadau i ddwy o'n haelodau ar eu dyweddïad, sef Angharad Jones â Peter Forester a Rhiannon Baker â Steffan Davis.

Bu'r Clwb Darllen yn brysur yn ddiweddar – *Capten* gan Meinir Pierce Jones oedd y gyfrol gyntaf i dderbyn sylw – y gyfrol hanesyddol gyntaf i'r grŵp ei thrafod. Yna, ar ddiwedd Ionawr, *My Other Husband* gan Dorothy Koomson oedd y dewis.

'Rhamant a Serch' yng nghwmni Ann M. Jones oedd yr arlwy i'r Gymdeithas am Ddau. Cyfeiriodd at gyfraniad Santes Dwynwen a San Ffolant, a chawsom enghreifftiau o farddoniaeth ramantus dros y canrifoedd

Bellach mae'r Ganolfan Glyd ar y Sadwrn, y Sul a dydd Mercher yn rhan o weithgaredd wythnosol yr eglwys.

Dechreuodd gweithgareddau flwyddyn newydd y Gymdeithas ym Mwyty Chineaidd *Riverside* yn Nhreganna.

Diolch i'r canlynol am eu parodrwydd i gynnal gwasanaethau yn ystod mis Rhagfyr: Rosa Hunt ein gweinidog, Cyfeillion ardal Bro Morgannwg a Phlant yr Ysgol Sul yn y Gwasanaeth Nadolig. Yna ym mis Ionawr – Y Parchg Denzil John, Y Parchg Lona Roberts, Y Parchg John Roberts, Marc Jon Williams, Euros Rhys a Bill Davies.

## SALEM, TREGANNA

Mae hi wedi bod yn brysur yn Salem eto dros yr ychydig fisoedd diwethaf, ac rydym yn falch o weld cynulleidfa dda yn troi i mewn atom bob Sul unwaith yn rhagor.

Mae'r blychau casglu ar gyfer y Banc Bwyd yn ôl yn eu lle yn y cyntedd, felly cofiwch eich cyfraniadau. Mae'r Ysgol Sul yn mynd o nerth i nerth ac yn croesawu nifer dda o blant bob wythnos.

**Priodas**

Llongyfarchiadau i Dyfed Cynan a Jessica Robinson a briododd ar 29 Rhagfyr 2022 yn ardal Gŵyr. Dymuniadau gorau i'r ddau ohonoch.

**Cwtsh Cynnes: bore Llun 09:30 a.m. - 1.00 p.m.**

Os hoffech chi, neu os gwyddoch chi am rywun a hoffai ychydig o gwmni a chynhesrwydd yn ystod misoedd oer y gaeaf, cofiwch fod drysau Cwtsh Cynnes Salem ar agor yn y festri bob bore Llun rhwng 09.30 a.m. ac 1.00 p.m. ac yn gyfle i ddod am sgwrs, i gael cornel dawel i weithio, i ddarllen, i wau – beth bynnag sy'n mynd â'ch bryd. Rydym yn croesawu pawb, boed yn aelod neu beidio, i arbed rhywfaint ar filiau tanwydd a rhoi'r byd yn ei le dros baned neu mewn blanced.



*Dyfed Cynan a Jessica Robinson*

## EGLWYS Y CRWYS

### Cyfarchion

Treuliodd Gareth Edwards gyfnod yn derbyn triniaeth yn yr ysbyty ddechrau Ionawr ond mae'n dda dweud ei fod bellach gartref ac yn teimlo'n dda. Pob dymuniad da iddo.

Rydym yn dymuno'n dda hefyd i Mrs Sali Davies sydd hefyd yn yr ysbyty. Gobeithio y caiff ddychwelyd i Dŷ Llandaf yn fuan.

### Cydymdeimlad

Mae ein cydymdeimlad dwysaf â Keith Shapey yn ei brofedigaeth o golli ei fam yn Southampton; hefyd â Dafydd Thomas ar golli ei frawd.

### Gwasanaethau'r Nadolig

Ar 17 Ragfyr cafwyd gwasanaeth hyfryd gan blant ac ieuenctid yr Ysgol Sul yn yr oedfa foreol. Diolch i Hannah Thomas, yr athrawon a'r rhieni am eu gwaith yn paratoi. Roedd yr oedfa hwyrol yng ngofal y Gymdeithas a'r Gymdeithas Ddrama ar y cyd. Roedd y Defosiwn dechreuol dan arweiniad Dr Diana Evans gyda chyfraniadau gan yr aelodau. Yn dilyn, cafwyd cyflwyniad o 'Mab y Saer' (William Owen) gan y Gymdeithas Ddrama gyda Robin Owen, mab yr awdur, yn cyfarwyddo. Diolch i'r holl aelodau am eu gwaith.

### Cyfraniadau at Achosion Da

Mae'r eglwys yn derbyn cyfraniadau yn fisol tuag at Fanc Bwyd Caerdydd, ac yn casglu stripiau tabledi tuag at Ysbyty Felindre a stampiau tuag at Gymdeithas y Deillion. Diolch i Siân Griffiths am yr holl drefniadau.

### Oedfaon mis Mawrth

Mae croeso cynnes bob amser i ymuno â'r gwasanaethau yn Eglwys y Crwys. Bydd yr oedfa foreol ar 5 Mawrth o dan ofal yr Ysgol Sul yn dathlu Gŵyl Dewi ac yna byddwn yn croesawu Delwyn Siôn i wasanaethu yn yr oedfa hwyrol. Gwasanaethir ar 12 Mawrth gan y Parchg Glyn Tudwal Jones. Bydd yr oedfa foreol ar 19 Mawrth o dan ofal y Gymdeithas Ddrama a'r oedfa hwyrol gyda Marc Jon Williams. Bydd y Gymdeithas Ddrama eto yng ngofal yr oedfa foreol ar 26 Mawrth a byddwn yn ymuno â'n ffrindiau yn Eglwys Tabernacl yn yr oedfa hwyrol.

## EGLWYS GATHOLIG TEILO SANT

Roedd dydd Sul 22 Ionawr eleni wedi'i benodi yn Sul Gair Duw yn yr Eglwys Gatholig yn fyd-eang – cyfle i bwysleisio rhan ganolog y Beibl ym mywyd pob Cristion, nid ar yr un diwrnod hwnnw yn unig, ond bob dydd o'r flwyddyn. Eleni roedd y diwrnod yn un arbennig iawn i un Cymro Cymraeg o Gaerdydd. Cafodd John Fellows ei wahodd i fod yn rhan o'r Offeren arbennig yn eglwys Pedr Sant yn Rhufain.

Mae John yn aelod o gynulleidfa'r Eglwys Gadeiriol yng Nghaerdydd a hefyd yn mynychu'r Offeren Gymraeg yn Eglwys Teilo Sant. Cafodd ei enwebu gan Archesgob Marc i dderbyn Beibl gan y Pab yn ystod yr Offeren ar y bore Sul hwnnw; yn un o dri o bobl oedd yn cynrychioli darllenwyr lleyg mewn plwyfi ledled y byd. Yn ei bregeth i tua phum mil o bobl yn yr eglwys anferth a hynafol, cafwyd anogaeth gan y Pab Ffransis i drysori Gair Duw, ei fyw yn ein bywydau bob dydd a'i drosglwyddo i eraill. Mae cwrdd â'r Iesu yn yr ysgrythur yn ein newid - allwn ni ddim aros yr un bobl ar ôl clywed ei neges fywiol Ef. Cafodd John gyfle i ddiolch i'r Pab yn Gymraeg ar ddiwedd yr Offeren.

**Offeren y Sul**: Eglwys Teilo Sant; 26 Chwefror am 4.30 p.m

**Dydd Gŵyl Dewi**: bydd Offeren arbennig yn Eglwys Teilo Sant ar 1 Mawrth eto eleni, am 6.00 p.m. Mae croeso cynnes i bawb ymuno â ni i ddathlu dydd gŵyl ein nawddsant.

---

# Myfyriwr o'r Barri yn un o enillwyr cyntaf erioed Bwrsariaeth Gareth Pierce

Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol a CBAC wedi cyhoeddi enwau'r tri myfyriwr cyntaf erioed i dderbyn bwrsari gwerth £3,000 yr un er cof am Gareth Pierce, Cadeirydd Bwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, a chyn Brif Weithredwr Cyd-bwyllgor Addysg Cymru (CBAC), a fu farw'n sydyn ym mis Gorffennaf 2021. Cynigir y bwrsari i hyd at dri myfyriwr israddedig sy'n astudio o leiaf draean o'u cwrs gradd Mathemateg drwy gyfrwng y Gymraeg.



Ymhlith y tri cyntaf i ennill y bwrsari mae Taylor-James Daughton o'r Barri, sy'n gobeithio gweithio fel athro Mathemateg yn y dyfodol, ac mae'n falch iawn i ennill y fwrsariaeth mewn pwnc y mae wrth ei fodd yn ei astudio ym Mhrifysgol Aberystwyth. Meddai: 'Dwi'n gwerthfawrogi'r fwrsariaeth yn fawr, ac yn ddiolchgar i'r Coleg Cymraeg a CBAC am y gydnabyddiaeth a'r arian. Dwi'n hapus fy mod i'n gallu astudio Mathemateg, sy'n bwnc mor ddefnyddiol, cyfredol a diddorol trwy gyfrwng fy mamiaith. Dwi'n edrych ymlaen at weithio fel athro yn y dyfodol er mwyn rhannu fy mrwdfrydedd am Fathemateg ac ysbrydoli'r genhedlaeth nesa i ddewis astudio'r pwnc trwy gyfrwng y Gymraeg.'

Wrth gyhoeddi enwau'r enillwyr meddai Dr Ioan Matthews, Prif Weithredwr y Coleg Cymraeg Cenedlaethol: 'Ar ran y Coleg, hoffwn longyfarch y tri ar ennill Bwrsariaeth Gareth Pierce. Roedd Gareth yn ffigwr dylanwadol yn y maes addysg yng Nghymru a gwnaeth gyfraniad allweddol i'r Coleg, yn benodol o ran sicrhau cyllideb addas i ymestyn gwaith y Coleg i feysydd addysg bellach a phrentisiaethau. Roedd Gareth yn gyfaill ac yn gydweithiwr uchel ei barch ac roedd ei golli yn ergyd aruthrol yn enwedig i'w deulu, ond hefyd i'w gyfeillion mewn cymaint o gylchoedd yng Nghymru a thu hwnt.'

Llongyfarchiadau cynnes a phob dymuniad da i Taylor-James.

# Y DIGWYDDIADUR

## Chwefror

**Iau, 9 Chwefror**
Cylch Cadwgan. Sgwrs gan Vaughan Hughes ar y testun 'Y *Cyfansoddiadau* – gwobrwyo a ffraeo', yng Nghlwb Rygbi Pentyrch am 8.00 p.m. Cydnabyddir nawdd Llenyddiaeth Cymru. Am fanylion pellach, cysylltwch â'r Ysgrifennydd, y Prifardd Glenys M. Roberts (groberts@btinternet.com).

**Mawrth, 14 Chwefror**
Cymdeithas Eglwys y Tabernacl, Yr Ais: Noson gerddorol am 7.30 p.m.

**Mawrth, 14 Chwefror**
Merched y Wawr, Cangen Caerdydd. Sgwrs gan Ruth Shelley ar y testun 'Trwy Lygad Lliw', yn Eglwys Fethodistaidd Cyncoed (ar y gornel rhwng Westminster Crescent a Heol Cyncoed) am 7.00 p.m. Croeso cynnes i aelodau hen a newydd. Am ragor o fanylion, cysylltwch ag Eluned Press (eluned@press0.plus.com; 07761-358755).

**Mercher, 15 Chwefror**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. Sgwrs gan Trystan a Sian Francis, yng nghapel Bethel, Maes-y-deri, Rhiwbina, CF14 6JJ, am 11.00 a.m. Manylion pellach gan yr Ysgrifennydd: Beth Killen (029-2056-6508).

**Iau, 16 Chwefror**
Cyfarfod agored Gŵyl Cerdd Dant Caerdydd 2023 i gynllunio, i drafod syniadau ac i gymdeithasu, am 7.00 p.m. yn yr ystafell uwchben Tafarn *Victoria Park*, Treganna. Croeso i bawb!

**Iau, 16 Chwefror**
Menter Caerdydd. Sgwrs gan Dr Brieg Powel ar y testun 'Wcráin: Blwyddyn Ymlaen', am 7.30 p.m. trwy gyfrwng *Zoom*. Am ddim. I gofrestru, cysylltwch â Rachel Matthews (rachel@mentercaerdydd.cymru).

**Iau, 16 Chwefror**
Merched y Wawr, Y Felin. Noson Ffilm Gwlân, Gwlân, Gwlana yng nghwmni Olwenna Davies am 7.30 p.m. yn neuadd festri capel Methodistiaid yr Eglwys Newydd.. Am fwy o fanylion cysylltwch â Janet (07810 363232).

**Iau–Gwener, 16–17 Chwefror**
Cynhyrchiad gan Frân Wen o *Croendena*, dramedi newydd gan Mared Llywelyn, yn Theatr y Sherman am 7.30 p.m. Manylion pellach: https://www.shermantheatre.co.uk/event/croendena/?lang=cy

**Gwener, 17 Chwefror**
Cylch Llyfryddol Caerdydd. Sgwrs gan Dr Simon Brooks, awdur y gyfrol *Hanes Cymry*, ar y testun 'Lleiafrifoedd mewn llenyddiaeth Gymraeg a llenyddiaeth Gymraeg gan leiafrifoedd', yn Ystafell 0.31, Adeilad John Percival, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, CF10 3EU, am 7.15 p.m. (Noder y newid amser.) Croeso cynnes i bawb.

**Llun, 20 Chwefror**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina. Dathlu Gŵyl Ddewi yng nghwmni Rhisiart Arwel, yng nghapel Bethel, Maes-y-deri, Rhiwbina, CF14 6JJ, am 7.30 p.m. Manylion pellach gan yr Ysgrifennydd, Dilwyn Jones (dilwynjones51@hotmail.com; 029-2062-0653).

**Mawrth, 21 Chwefror**
Cymdeithas Ddiwylliannol Eglwys Minny Street. Noson 'Fy Milltir Sgwâr' yng nghwmni Lynwen ap Gwynedd ac Ieuan Daviers, am 7:30 p.m. yn festri'r capel. Croeso cynnes i bawb.

**Sadwrn, 25 Chwefror**
Organathon yn y Tabernacl, Yr Ais, rhwng 12.30 a 3.30 p.m.

## Mawrth

**Mercher, 1 Mawrth**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. Dathlu Gŵyl Ddewi, yng nghapel Bethel, Maes-y-deri, Rhiwbina, CF14 6JJ, am 11.00 a.m. Manylion pellach gan yr Ysgrifennydd: Beth Killen (029-2056-6508).

**Mercher, 1 Mawrth**
Merched y Wawr, Cangen Bro Radur. Noson y Dysgwyr/Siaradwyr Newydd. Sgwrs gan Dr Sylvia Prys Jones ar y testun 'Caffael Iaith', yn Ysgoldy Eglwys Crist, Heol Isaf, Radur, am 7.30 p.m. Croeso i aelodau hen a newydd. Cysylltwch â'r Ysgrifennydd Gwen Emyr (gwen.emyr@gmail.com; 029-2084-8545).

**Gwener, 3 Mawrth**
Dydd Gweddi'r Byd. Cynhelir gwasanaeth yn y Tabernacl, Yr Ais, am 2.00 p.m. Paratowyd y gwasanaeth eleni gan ferched Taiwan ar y thema 'Clywais am eich ffydd'. Y capeli fydd yn cynorthwyo eleni yw Minny Street a'r Crwys ac Eglwys Teilo Sant. Croeso i bawb, yn ddynion ac yn ferched. Manylion gan yr Ysgrifennydd: Ruth Davies (029-2221-1407; billd.d2@tiscali.co.uk).

**Llun, 6 Mawrth**
Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd. Yn y 'New House Country Hotel', Heol y Ddraenen, Draenen Pen-y-graig (*Thornhill*), Caerdydd, CF14 9UA, am 7.00 ar gyfer 7.30 p.m. Siaradwraig wadd: Siân Doyle (Prif Weithredwr S4C). Manylion pellach: cylch.cinio@gmail.com.

**Mawrth, 7 Mawrth**
Cymdeithas Ddiwylliannol Eglwys Minny Street. Noson o adloniant cerddorol yng nghwmni Marged a Steffan Jones, am 7:30 p.m. yn festri'r capel. Croeso cynnes i bawb.

**Mawrth, 14 Mawrth**
Merched y Wawr, Cangen Caerdydd. Sgwrs gan Bethan Lewis am Sain Ffagan, yn Eglwys Fethodistaidd Cyncoed (ar y gornel rhwng Westminster Crescent a Heol Cyncoed) am 7.00 p.m. Croeso cynnes i aelodau hen a newydd. Am fwy o fanylion cysylltwch ag Eluned Press (eluned@press0.plus.com; 07761-358755).

**Mercher, 15 Mawrth**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. Bore cymdeithasol, yng nghapel Bethel, Maes-y-deri, Rhiwbina, CF14 6JJ, am 11.00 a.m. Manylion pellach gan yr Ysgrifennydd: Beth Killen (029-2056-6508).

**Mercher 15 Mawrth**
Cymrodorion Caerdydd. Cinio Gŵyl Ddewi yn yr Hen Lythyrdy (Old Post House), Sain Ffagan, am 7.00 p.m. ar gyfer 7.30 p.m. Pris: £30 am ddau gwrs, teisenni cri, a the neu goffi. Siaradwr: Alun Guy, a fydd yn sôn am ei atgofion o'i ddyddiau cynnar gyda'r Urdd yng Nghaerdydd. Manylion pellach gan yr Ysgrifennydd, Gwynn Matthews (m.g.derwendeg@gmail.com; 029-2089-1802).

**Iau, 16 Mawrth**
Merched y Wawr, Y Felin. Noson yng nghwmni Shân – Siop y Felin am 7.30 p.m. yn neuadd festri capel Methodistiaid, yr Eglwys Newydd. Am fwy o fanylion cysylltwch â Janet (07810 363232). Croeso cynnes i aelodau hen a newydd.

**Gwener, 17 Mawrth**
Cylch Llyfryddol Caerdydd. Sgwrs gan Dr Rebecca Thomas, awdur y nofel *Dan Gysgod y Frenhines* (2022), ar y testun 'Ysgrifennu rhwng y llinellau: heriau a chyfleon ffuglen hanesyddol ganoloesol'. Trwy gyfrwng Zoom am 7.00 p.m. Croeso cynnes i bawb. I dderbyn y ddolen *Zoom*, cysylltwch â'r Cadeirydd, Dr Llion Pryderi Roberts (RobertsLP1@caerdydd.ac.uk)

**Llun, 20 Mawrth**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina. Sgwrs gan yr awdur, Alun Gibbard, yng nghapel Bethel, Maes-y-deri, Rhiwbina, CF14 6JJ, am 7.30 p.m. Manylion pellach gan yr Ysgrifennydd, Dilwyn Jones (dilwynjones51@hotmail.com; 029-2062-0653).

**Gwener, 24 Mawrth**
Cylch Cadwgan. Bydd y Prifardd Ifor ap Glyn yn trafod ei waith yn y Ganolfan, Tabernacl, Efailisaf, am 8.00 p.m. Cydnabyddir nawdd Llenyddiaeth Cymru. Am fanylion pellach, cysylltwch â'r Ysgrifennydd, y Prifardd Glenys M. Roberts (groberts@btinternet.com).

**Sadwrn, 25 Mawrth**
Datganiad Organ gan William Thomas yn y Tabernacl, Yr Ais, am 12.30 p.m. Tocynnau: £10 (£5 i blant a myfyrwyr). Yn yr hwyr am 6.30 p.m., bydd noson o gerddoriaeth a dawns gospel.

**Mawrth, 28 Mawrth**
Cymdeithas Ddiwylliannol Eglwys Minny Street. Cinio Pen Tymor yng Nghlwb Golff yr Eglwys Newydd, am 7:00 p.m. Gwestai Gwadd: Gill Griffiths.

**Mercher, 29 Mawrth**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. Sgwrs gan Ann Mears ar y testun 'Trefnu Blodau', yng nghapel Bethel, Maes-y-deri, Rhiwbina, CF14 6JJ, am 11.00 a.m. Manylion pellach gan yr Ysgrifennydd: Beth Killen (029-2056-6508).

**Anfonwch fanylion ar gyfer y Digwyddiadur at yr Athro E. Wyn James. 16 Kelston Rd, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd, CF14 2AJ (029-2062-8754; JamesEW@caerdydd.ac.uk).**

# Merched y Wawr Y Felin



Braint oedd croesawu'r Archdderwydd, awdur, bardd a dyn busnes Myrddin ap Dafydd draw i'n plith i gyfarfod cyntaf y flwyddyn. Gwyddom y byddai yn ddewis poblogaidd a ni chawsom ein siomi gyda nifer da yn troi allan i'w groesawu i'r ddinas.

Mae Myrddin ar hyn o bryd wrthi'n ysgrifennu llyfr i ddathlu canmlwyddiant yr Urdd, llyfr a fydd yn crynhoi prif ddathliadau'r canmlwyddiant a'r pethau arwyddocaol sydd wedi chwarae rhan bwysig yn hanes a datblygiad yr Urdd dros y blynyddoedd. Nododd gyfraniad a gweledigaeth Syr Ifan ab Owen Edwards yn ysgrifennu llythyr agored i blant Cymru yng nghylchgrawn *Cymru'r Plant* i ofyn iddynt sut roedd cadw'r iaith Gymraeg yn fyw. Roedd Syr Ifan wedi deall pa mor bwysig oedd dysg a hamdden i blant bach Cymru ac fe arweiniodd hyn at sefydlu gwersyll Llanuwchllyn yn 1928 gydag Aelwyd gyntaf yr Urdd yn agor ar y ffin yn Nhreuddyn yn 1921. Nododd hefyd y weledigaeth ryngwladol oedd ganddo o'r cychwyn cyntaf, yn cynnwys gyrru neges ewyllys da, pererindod i Genefa, a gwahodd Almaenwyr i Aberystwyth ar ôl yr Ail Ryfel Byd a arweiniodd at sefydlu Aelwyd yr Urdd yn yr Almaen! Erbyn hyn mae'r cyswllt rhyngwladol yn rhan greiddiol o waith yr Urdd fel y gwelwyd yn ddiweddar drwy groesawu ffoaduriaid o Affganistan ac Wrcáin i'r gwersylloedd.

Cyfeiriodd hefyd at yr heriau sydd wedi wynebu'r Urdd dros y blynyddoedd a sut mae'r Urdd wedi esblygu a dylanwadu mewn sawl ffordd, e.e. arweiniodd ymgyrch gwerthu llyfrau Cymraeg yn 1937 yn ddiweddarach at sefydlu'r Cyngor Llyfrau; agorwyd ysgol breifat Gymraeg gyntaf yng Nghanolfan yr Urdd yn Aberystwyth o dan adain Norah Issac at dwf Addysg Gymraeg gyda'r ysgol gyntaf Gymraeg o dan ofal awdurdod lleol yn agor yn Llanelli yn 1947; a sut mae'r gwersylloedd wedi rhoi cyfleon di-ri a hapus i blant bach Cymru fel i ni weld yn ddiweddar ar raglen S4C gyda theuluoedd yn rhannu'r atgofion melys am eu gwyliau yn Llangrannog a Glan-llyn.



*Cwmni diddan parti Nadolig y gangen.*

Diweddglo hyfryd i'r noson oedd clywed am lwyddiant ysgubol Eisteddfod yr Urdd yn Ninbych, y gyntaf ers y pandemig, a sut bu i'r Urdd drawsnewid y cystadlu gyda chyfle i bawb berfformio ar y llwyfan. Cafwyd noson hynod o ddifyr yng nghwmni Myrddin gyda phawb yn edrych ymlaen i gael gafael ar y llyfr a dod i wybod mwy am fudiad sydd wedi chwarae ac sy'n parhau i chwarae rhan allweddol yn hanes a datblygiad yr iaith. Diolch yn fawr i Myrddin am fentro i lawr i'r ddinas ac am noson arbennig. Cofiwch ymweld â Gwasg Carreg Gwalch (carreg-gwalch.cymru)

Rydym yn cwrdd ar drydydd dydd Iau'r mis am 7.30 p.m. yn Festri Capel Methodistiaid yr Eglwys Newydd, Ffordd Kelston, Yr Eglwys Newydd.

Os am ymuno ebostiwch mywyfelin@gmail.com neu cysylltwch â Glenys (Cadeirydd) ar 07857 342464 neu Janet (Ysgrifennydd) ar 07810 363232.

# Merched y Wawr Bro Radur

Brodor o Lanbadarn Fawr, Aberystwyth oedd ein gwestai ym mis Rhagfyr. Mynychodd Kevin Davies Goleg Garddwriaethol Llaneurgain a newid ei gwrs yno yn fuan oherwydd bod blodeuwriaeth wedi apelio ato. Bu ei siop flodau ar Ffordd y Môr, Aberystwyth yn llwyddiannus iawn ond ar ôl pymtheng mlynedd teimlodd yr alwad i'r weinidogaeth ac aeth Kevin i'r Coleg Diwinyddol yn Aberystwyth. Bu'n gwasanaethu capeli yn ardal Llangeler am ddeng mlynedd cyn dod yn weinidog ar eglwysi Tabernacl, Y Barri a Bethel, Penarth.






Yn naturiol mae gosod blodau yn rhoi cymaint o fwynhad i Kevin ag erioed a chawsom ei wylio yn rhoi pedwar gosodiad at ei gilydd mewn modd mor greadigol a diymdrech, gan ein diddanu â nifer o storïau difyr yr un pryd. Fel y gwelwch o'r llun roedd Kevin yn defnyddio llawer iawn o ddeunyddiau cynaliadwy fel celyn, brigau, cwyrwiail, iorwg, dail pinwydd, moch coed a mwsog i roi siâp a llenwi'r trefniannau. [Mae Kevin yn rhedwr profiadol ac yn edrych o'i gwmpas wrth redeg - gwelodd gelyn gydag aeron ger Swyddfa'r Heddlu yn Nhrebiwt!] Defnyddiodd orennau wedi eu sychu yn y ffwrn ac afalau yn un o'r trefniannau ac roedd wedi prynu rhai blodau fel carnasiynau a Rhosyn y Nadolig gwyn i roi lliw i'r trefniannau – gan nodi bod eu pris wedi cynyddu'n arthurol erbyn hyn. Un ffaith am yr oasis i'n sobri! Mae un bloc ar gyfartaledd gyfwerth ag 20 o fagiau plastig! Mae ymchwil ar droed i geisio creu un mwy cynaliadwy.

Cawsom noson hynod o ddiddorol yng nghwmni aelod o'r gangen ar 3 Ionawr; roedd teitl y noson wedi creu chwilfrydedd ynom, '*Pobl y Cwm* Affganistan'! Wedi astudio hanes yn Rhydychen enillodd Maggie Smales ysgoloriaeth i fynychu Prifysgol Siarl ym Mhrâg am dair blynedd. Cwrddodd â chriw anhygoel o bobl o bedwar ban y byd – o Japan, Viet Nam, Ethiopia, India, Rwsia, Romania a Denmarc, ac un siaradwr Tsiec o Ogledd Cymru, Pedr [un o feibion Jonah Jones, y cerflunydd a'r arlunydd] a ddaeth yn ŵr iddi.

Gyda Pedr yn gweithio yng Nghanolfan Glustfeinio'r BBC (yn Reading) cafodd Maggie swydd yn llyfrgellydd yn y BBC yn Llundain dros y Gwasanaeth Byd Eang. Ei gwaith ola a mwya diddorol yno oedd rheoli'r adran oedd yn darlledu i wledydd yr hen Undeb Sofietaidd, Iran ac Affganistan. Daeth opera sebon radio ardderchog o'r enw *Naway Kor, Naway Jwand* (Cartref Newydd, Bywyd Newydd) yn yr iaith Pashto (un o ieithoedd Affganistan) ar gyfer pobl cefn gwlad Affganistan yn boblogaidd tu hwnt, yn enwedig yr omnibws ar fore Gwener, pan fyddai'r gwragedd yn gallu rheoli'r radio – gyda'u gwŷr yn mynychu'r mosg! Cawsom gipolwg ar deithiau Maggie i Affganistan a Phacistan trwy gymorth Adam Colman a sicrhaodd fod lluniau a sain ar y sgrîn fawr.

Gyda dau fachgen bach i'w magu rhoddodd Maggie y gorau i weithio i'r BBC wedi tair blynedd ar ddeg o gymudo o Reading i Lundain. Wrth ymddeol penderfynodd hi a'i gŵr ddod i Gymru – i Gaerdydd lle meistrolodd Maggie'r Gymraeg.

*Meri Griffiths*

---

# GŴYL CERDD DANT CAERDYDD 2023

Gyfeillion, os na wyddech chi eisoes, dyma gadarnhau yn ffurfiol bod yr **Ŵyl Cerdd Dant yn dod i Gaerdydd yn 2023**!! Mae'r dyddiad wedi'i gadarnhau, sef **dydd Sadwrn 11 Tachwedd**, felly gwnewch nodyn yn eich dyddiadur nawr. Ac rydym ar fin cadarnhau'r lleoliad, felly byddwn yn datgelu hynny yn ein diweddariad nesaf.

Rydym wedi gwirioni ein bod yn gallu croesawu'r Ŵyl yn ôl yma wedi 40 mlynedd yn crwydro Cymru. Y tro diwethaf iddi gael ei chynnal yng Nghaerdydd oedd ym 1981, felly mae'n gyfle gwych i gerdd dantwyr a chefnogwyr cerdd dant, a phawb arall sy'n cefnogi traddodiadau Cymru ddod at ei gilydd i ddathlu yn y brifddinas. A pheidiwch â phoeni, fydd 'na ddim gemau rygbi gan y bydd Cwpan Rygbi'r Byd wedi gorffen erbyn hynny.

Nawr mae'r gwaith yn dechrau – mae gennym restr testunau, mae angen logo, mae angen codi arian, mae cyfleoedd gwych i bawb fod yn rhan o'r bwrlwm.

Os hoffech chi glywed y cynlluniau, gyfrannu syniadau a chymdeithasu wrth drafod, dewch i'r **stafell uwchben tafarn *Victoria Park* yn Nhreganna nos Iau 16 Chwefror am 7.00 p.m**. Cewch gwrdd â swyddogion y Pwyllgor Gwaith, sydd wedi'u hethol yn barod, felly does dim raid i chi boeni y cewch eich enwebu i ymgymryd â rhyw swydd neu ddyletswydd nad oes gennych yr un iot o ddiddordeb ynddi!

Os oes gennych chi unrhyw gwestiwn, neu os hoffech chi gynnig syniad, ac yn methu dod i'r cyfarfod, y cyfeiriad e-bost i gysylltu â ni yw GCDCaerdydd2023@gmail.com.

# Pobol y Rhigwm

Cystadleuaeth wannach na'r arfer oedd hi'r mis hwn o ran nifer a safon. Er i'r beirniad osod limrig fel tasg gynta'r flwyddyn, mae'n ddichon y bu blŵs mis Ionawr yn rhwystr i'r awen ysgafnach! Ta waeth, daeth pum limrig i law ac nid yw'r gŵyn arferol wedi distewi yn 2023, mae arna i ofn – herciog yw'r fydryddiaeth yn y rhan fwya o'r cynigion ac mae yma gystrawen wamal hefyd. Cyfrwch y sillafau a meddyliwch, 'sut fydden i'n dweud hyn ar lafar?' Fe fyddech chi'n rhyfeddu mor rhwydd yw unioni cystrawen gam.

Cymerer llinell olaf cynnig *Lemwn a Siwgr* (gydag ymddiheuriade i'r cystadleuydd am ddethol yr enghraifft benodol hon), 'fel mae'n anodd i beidio gorfwyta'. Ar wahân i'r ffaith bod iddi ddeg sill yn hytrach na'r naw sy angen i gyd-fynd â'r ddwy linell gynta, mae'r ymadrodd 'fel mae'n anodd' yn wallus. Yn syml ddigon, byddai 'ac anodd yw peidio gorfwyta' yn dweud yn union yr un peth ond yn cadw'n driw i ofynion mydryddol y mesur, ac yn Gymraeg cywir. Nawrte, dydw i ddim yn bedant sy'n disgwyl Cymraeg ffurfiol a chain gan bwy bynnag sy'n ei medru. I'r gwrthwyneb, mewn gwirionedd, mae twtshys llafar, tafodieithol, yn aml yn cyfoethogi llên, a chyfrwng ysgafn fel y limrig yn enwedig. Fodd bynnag, yn fy ffordd ryfygus fy hunan, hoffaf feddwl bod arnaf ddyletswydd, fel beirniad colofn farddol hirhoedlog, i barchu crefft a hyrwyddo cywirdeb. Wedi'r cyfan, mae gyda ni draddodiad sy'n werth ei barchu. Digon o draethu! Dyma'r ddau limrig ddaeth yn agos ati:

Rôl gwario Dydd Ynyd yn 'sgota
Mae'n rhaid wrth grempogen i'w bwyta
Llawn blawd, wy a llaeth
Dw'i mor hoff o'r fath maeth
Fel mae'n anodd i beidio gorfwyta!
*Lemwn a Siwgr*

'Mae'n rhaid wrth grempogen i'w bwyta',
Meddai Dudley sy'n byw ym Mhontcanna,
'Mae rhain yn ffantastig,
Yn well na'r un ffisig
I gael gwared o gryd-y-cymalau.'
*Cogydd*

Dyma'r tri limrig a ddaeth i frig y gystadleuaeth hon, gyda phwt am bob un:

Mae'n rhaid wrth bancosen i fwyta,
Pan af i gael te draw da Brenda;
A wyddost ti be,
Efallai'r ôl te:
Yr awn ni ein dau lan y grisia!
*Boi Bric Row*

*Boi Bric Row* yw'r unig gystadleuydd wnaeth gadw'n driw i fydryddiaeth y limrig a rhaid cydnabod hynny. Does fawr o wreiddioldeb i sylwedd y limrig, fodd bynnag!

'Mae'n rhaid wrth grempogen i'w bwyta',
Meddai hybarch offeiriad o'r Bala.
Fe'i thaflodd i'r nen,
Daeth i lawr ar ei ben.
Cyrhaeddodd ei iaith uchelfannau!
*Parchedig*

Yn yr un modd â limrig *Cogydd*, synhwyraf nad oedd yr ymgeisydd hwn wedi bwriadu cynnwys yr 'u' ar ddiwedd y gair olaf. Gallaf faddau hynny. Darllener fel 'uchelfanna' felly, gydag ogwydd Ogleddol! Mae 'na ôl meddwl gwreiddiol i'r cynnig hwn ac er bod linellau 2 a 4 sill yn rhy hir, dyw hynny ddim yn tynnu'n ormodol oddi ar linell glo grafog wnaeth imi wenu! Mae'r ffaith bod yr 'hybarch offeiriad' yn dod 'o'r Bala' hefyd yn apelio at fy hiwmor (er bod 'Bala' yn hynod handi ar gyfer cynnal y brifodl, hefyd...)!

'Mae'n rhaid wrth grempogen i'w bwyta',
Meddai Ffrancwr sy'n byw yn Geneva.
'Dim ond llaeth, siwgwr, ŵy,
Pinsaid halen, dim mwy,
A "crepes" ydi'r enw yn fan'ma.'
*Pierre*

Gwenais wrth ddarllen y limrig hwn, hefyd – mae *Parchedig* a *Pierre* fel ei gilydd wedi meistroli'r dechneg o daro'r ergyd sy'n goglais yn y llinell glo. Dyna un o hanfodion y limrig, wrth gwrs. Mae limrig *Pierre* yn darllen fel rysáit, sy'n ei wneud yn gomic, rhywsut! Gresyn bod 'na sill yn ormod yn llinell 2. *Pierre*, byddai 'medd Ffrancwr sy'n byw yn Geneva' wedi unioni hynny'n syth, ac fe fyddai'n limrig gorffenedig, wedyn. Cynnig da iawn, fodd bynnag ac mewn cystadleuaeth ddigon anysbrydoledig, ffraethineb *Pierre* sy'n mynd â hi'r tro hwn.

Dyma gyngor adeiladol i'r limrigwyr, felly, i fireinio eu crefft. Mae'n fesur poblogaidd ac os am greu argraff fel limrigwr, mae'n rhaid wrth gynnig gwreiddiol sy'n darllen yn esmwyth. Fe ddaw, gydag ymarfer a gwaith meddwl. Mae limrig yn un o dasgau'r Talwrn yn ddieithriad, bron – yn fwy aml na heb, mae limrigau'r talwrn yn gynseiliau da ar gyfer y meini prawf y soniais amdanynt uchod. Mae digon o botensial gyda limrigwyr y mis hwn i efelychu hynny. Gyda llaw, beth ddigwyddodd i'r odl fewnol? Dim ond arsylwi...!

*Aron Pritchard*

**Enillydd Rhagfyr/Ionawr**

**Zorah Evans**

**Cystadleuaeth mis Chwefror**

Englyn, neu bennill arall heb fod dros bedair llinell – Afon

*Anfonwch eich cynigion erbyn 20 Chwefror at:*
*eirianagwilym@gmail.com*
*Gwobr: Tocyn llyfr: £10*

**Diolch yn fawr**

Dymuna pwyllgor *Y Dinesydd* ddiolch yn fawr iawn i eglwysi ac unigolion am eu rhoddion hael tuag at gynnal ein papur bro.

# Siaradwyr Cymraeg Newydd



*Mis Bach = Mis Chwefror*

Gwilym Dafydd

**Deiniol Carter: Clonc yn y Senedd**

Roedd yn hyfryd cael cyfle i fynychu sesiwn Clonc yn y Bae yn y Senedd ar fy mhen-blwydd ar 24 Ionawr. Mae'r grŵp yn cwrdd bob prynhawn Mawrth o 2yp ymlaen, fel arfer yn y Gyfnewidfa Lo. Mair Bevan sy'n trefnu. Roedd digon o hwyl a sbri ar y diwrnod, llawer o sgwrsio difyr, llwyth o ddanteithion blasus a'r tywydd yn braf. Cafodd y grŵp anrheg arbennig hefyd pan ymddangosodd Elin Jones, Llywydd y Senedd. Roedd hi'n rhyfedd fod dau ohonom yn dathlu'r un pen-blwydd, sef Magda Thomas. Cawson ni ddymuniadau gorau gan y Llywydd a chân ben-blwydd gan y grŵp. Diwrnod i'r Brenin yn wir!



**Prinder Tiwtoriaid**

Roedd hi'n ddiddorol gwrando ar Daniel yn sôn am yr uchod yn Clonc Caffè Nero, Jams Hywel, amser cinio, 26 Ionawr. Roedd Mike, Sean a Sheridan yno hefyd. Mae'n debyg bod angen tiwtoriaid newydd i gynorthwyo Canolfan Cymraeg i Oedolion Caerdydd. Mae'n dda bod siaradwr rhugl fel Deiniol wedi mynd draw yno i ddysgu mwy am y gwaith. Rwy'n cofio Daniel ac eraill yn fy nosbarth Canolradd yno rai blynyddoedd yn ôl erbyn hyn! Os am fod yn diwtor Cymraeg effeithiol, rhaid i chi fod yn **BBC**, hynny yw **B**ywiog, **B**rwdfrydig a dangos **C**ydymdeimlad. Dyna'r tri gair pwysig: bywiogrwydd, brwdfrydedd a chydymdeimlad. Gwelir mwy am hyn yn y llawlyfr gwerthfawr i diwtoriaid, *Cyflwyno'r Gymraeg*. Dyma siars Geraint Wilson-Price yn ei bennod am 'Y Wers Gyntaf'.

Wel pob lwc Deiniol a phob tiwtor newydd i'r dyfodol. Cofier bod rhaid i chi baratoi gwers o flaen llaw a marcio gwaith cartref! Mae'n debyg bod tua 15,000 yn mynychu dosbarthiadau Cymraeg i Oedolion y dyddiau hyn, felly mae angen nifer dda o diwtoriaid llawn-amser a rhan-amser i gyrraedd y miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050!

**Clonc Eglwys Dewi Sant**

Ar fore Sadwrn, 21 Ionawr, es draw i Glonc Eglwys Dewi Sant yn neuadd yr eglwys am y tro cyntaf ers misoedd lawer. Mae'r Clonc yn cyfarfod yn rheolaidd ar y trydydd bore Sadwrn o'r mis. Roedd dwsin a mwy yno a digon o goffi a bisgedi unwaith eto! 'Dyn ni ddim wedi cael llun o'r Clonc hwn yn *Y Dinesydd* ers rhai blynyddoedd felly dyma lun newydd. Fedrwch chi enwi rhai yn y llun? Anodd os nad oes yna wynebau!





**Clwb Gwylio Adar**

Fe gofiwch, gobeithio, ein bod yn cyfarfod fel arfer ar fore Sadwrn cyntaf y mis a hynny yn Fferm y Fforest y dyddiau hyn. Eirian sy'n arwain y daith fel arfer – mae hi am i ni fentro allan o'r Eglwys Newydd eleni, ond rhaid cael mwy o gwsmeriaid cyn i hynny ddigwydd! Cwrddon ni y tu allan i Ganolfan y Wardeniaid ar fore Sadwrn, 7 Ionawr – Eirian, Joan, Allan, Isobel a fi. Ron ni'n ffodus â'r tywydd a dweud y gwir oherwydd arhosodd yn sych am awr neu ddwy – ond roedd hi'n wlyb ar hyd nos Wener ac felly y bu ar y prynhawn Sadwrn. Rwy'n cofio bod llawer mwy o adar yn canu nag ar ddechrau mis Rhagfyr – rhaid bod yr adar yn synhwyro bod gwanwyn arall ar y ffordd. Mae croeso i bawb i ymuno â ni. Os am ddod draw yna cysylltwch ag eirianagwilym@gmail.com neu edrychwch yn @GwilymDafydd ar Trydar yn ystod yr wythnos cyn cynnal y Clwb Gwylio Adar.



## Rhif: 230




**Ar draws**

1. Llais Lisa ar yn ail yn cyrraedd cyfandir (4)
8. Nid drygair yw hwn ond ysgydwydiad (10)
9. Yn dilyn pen Goliath gŵr mawr wedi plygu (8)
10. Mae hanner y llancesau yn chwilio am frawd Jacob (4)
12. 'Chwythodd ----- ----- fi i'r Eil o Man
    A dyna lle bum yn crio' (1,5)
14. Ychwanegu halen i gynnwys epig yw'r uchafbwynt (6)
15. Un sy'n hedfan yn uchel (6)
17. Cywasgu'r croesholi i'r gwrthwyneb (6)
18. Epiliais ar yn ail, digon i'r tŷ mawr (4)
19. 'Pererin wyf mewn ----- -----,
    Yn crwydro yma a thraw' (WW) (5,3)
21. Gŵr o'i fodd i hanner cant yn gweithio o ewyllys (10)
22. Un fel Dewi (4)

**I lawr**

2. Brysia wella o hwn (5,5)
3. Coleg drama yn cefnu ar y pluog (4)
4. A ddisgynnodd Tara ar y mynydd hwn? (6)
5. Lle enwog (2,1,3)
6. '----- ----- 'Buddugoliaeth'
   Am iachawdwriaeth lawn' (HS) (2,6)
7. Llinyn i bâr ar y we (4)
11. 'Rhyw noson fel heno, a'r lluwch ar y mynydd,
    ----- ----- ----- curo ffenestri y fro' (EW) (1'1, 6,2)
13. Ynysu côr sy'n diddanu (2,6)
16. Dof a'r techneg yn ôl i'r dadlau (6)
17. Corgi Morgan wedi torri coes (6)
18. Dewis brathu (4)
20. Mae hon yn swnio mewn poen (4)

**Enillydd Croesair Rhif 228**
**Nia Williams, Creigiau**

**Atebion Croesair Rhif 228**

**Ar Draws:** 7. Wedyn 8. Aderyn 9. Neithiwr 10. Glofa 12. Disgleirio 15. Sisial ganu 18. Gwingo 19. Diafael 21. Didaro 22. Safle

**I Lawr:** 1.Gwenhwyseg 2. Adain 3. Ynni 4. Carreg 5.Pengwern 6. Cyfochri 11. Ar orwel pell 13. Igam-ogam 14. Yswirio 16. Godrodd 17. Darfu 20. Awst

Danfonwch eich atebion at Rhian Williams
erbyn 5 Mawrth 2022
22 Heol Cae Rhys, Rhiwbeina,
Caerdydd, CF14 6AN

Gwobr: Tocyn llyfr £10




## Hwyl yr Hydref

### Darpariaeth Newydd i Oedolion a Digon o Fwrlwm i'r Plant!

Mae Chwefror yn fis prysur i Fenter Caerdydd a Menter Iaith Bro Morgannwg. Beth sydd ar y gweill yn ystod y mis bach?

**Darpariaeth Newydd: Addysg Oedolion**

Mae'n amser cyffrous i ni wrth fynd ati i ddatblygu darpariaeth newydd Addysg Oedolion gyda chefnogaeth Cyngor Caerdydd. Bydd hen ffefrynnau fel y Gerddorfa Ukulele, gwersi cynganeddu a pilates yn parhau, tra bo cyrsiau newydd yn dechrau dros yr wythnosau a misoedd nesaf. Hoffech chi ddysgu sgil newydd? Cadwch olwg ar ein gwefan ar gyfer cyrsiau megis cymorth cyntaf, cyfieithu ar y pryd, codi pwysau, gwnïo … a mwy, yn dechrau'n fuan!




***Hanes Cymru: Mudiadau Protest yn y Gymru Fodern* – yn dechrau nos Lun, 6 Chwefror, 7:30 p.m. ar *Zoom* (£10 am 3 sesiwn - recordiadau ar gael)**

Yn y cwrs diweddaraf yng nghyfres *Hanes Cymru*, bydd yr Athro Paul O'Leary o Brifysgol Aberystwyth yn gofyn pam fod pobl yn protestio mewn amgylchiadau penodol? Pwy sy'n protestio a sut? A beth yw arwyddocâd y protestiadau hyn?
Sesiwn 1: Mudiadau Cudd, Mudiadau Agored;
Sesiwn 2: Bandiau Jazz, Gorymdeithio a Deiseb;
Sesiwn 3: Mudiadau'r 'Di-lais' neu Ddatblygiad Newydd wedi 1945? Ewch i'r wefan i gofrestru.

**Sgwrs y Mis: *Wcráin – Blwyddyn Ymlaen*** yng nghwmni Dr Brieg Powel, Prifysgol Caerwysg – nos Iau, 16 Chwefror, 7:30 p.m. ar *Zoom*.

**Mewn Tiwn** – cyngerdd gymunedol yng Nghanolfan Beulah, Rhiwbeina. Bore Llun, 27 Chwefror am 11:30 a.m. yng nghwmni'r delynores Delyth Jenkins. Yn rhad ac am ddim.

**Gweithgareddau i Blant a Theuluoedd**
Bydd Menter Caerdydd yn trefnu cynllun Gofal yn ystod gwyliau hanner tymor mis Chwefror a bydd sesiynau Bwrlwm yn cael eu cynnal mewn lleoliadau amrywiol yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg. Cewch hyd i'r manylion llawn ar ein gwefan a'r cyfryngau cymdeithasol yn nes at yr amser. Yn ogystal, cynhelir gweithdy coginio yng nghwmni *Cookstars* ddydd Sadwrn, 11 Chwefror yn Neuadd Eglwys St Peters, Y Tyllgoed a gweithdy gwyddoniaeth gyda *SparkLab* yn y Fro ar ddydd Mawrth, 28 Chwefror (manylion i'w cadarnhau).

Cofiwch hefyd am ein gweithgareddau arferol i blant bach a theuluoedd sy'n parhau yn ystod y tymor ysgol.

**Pobl Ifanc**
Mae'r Cwrs Ffasiwn a'r Gweithdai Podcastio'n profi'n boblogaidd wrth i ni barhau i estyn ein darpariaeth i'r rhai yn eu harddegau. Rydym hefyd yn edrych ymlaen at ddathlu Dydd Miwsig Cymru ar 10 Chwefror!

**Siaradwyr Newydd**
Gwenllian fydd wrth y llyw yn ein bore coffi misol i ddysgwyr ar *Zoom* – bore Gwener ola'r mis am 10.30 a.m. Dewch i ymarfer siarad Cymraeg!

Gwefan: mentercaerdydd.cymru / menterbromorgannwg.cymru
Facebook: @m.caerdydd / @MIBroMorgannwg
Instagram: https://www.instagram.com/mentercaerdydd/
E-bost / Ffôn: post@mentercaerdydd.cymru / 029 2068 9888

